

Fframwaith Rheoleiddio

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |

This document is also available in English

www.medr.cymru



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Datganiad ar ein Dull o Fonitro.....	2
Amod: Cynaliadwyedd Ariannol.....	6
Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion Amod: Cynaliadwyedd Ariannol; Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)	11
Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion Amod: Cynaliadwyedd Ariannol; Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol) Trothwy Ymrwymadau Ariannol.....	13
Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheolaeth Ariannol).....	19
Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol).....	25
Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol) Rheoli Ystadau.....	28
Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol) Elusennau Esempt	30
Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol).....	31
Amod: Ansawdd a Gwellu'n Barhaus.....	34
Amod: Sylw i Gyngor a Chanllawiau.....	38
Amod: Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrrwyr.....	41
Amod: Terfynau Ffioedd	44
Amod: Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth.....	47
Amod: Statws Elusennol.....	52
Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion – Digwyddiadau Adroddadwy	55



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Datganiad ar ein Dull o Fonitro

Yma rydym yn nodi meddyliau cychwynnol Medr ar ein dull o fonitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru a chyllid. Mae'n adlewyrchu ein hegwyddorion rheoleiddio, ein dyletswyddau statudol, a'n hymrwymiad i ddatblygu system oruchwylio gymesur, seiliedig-ar-risg sy'n ategu cydymffurfedd rheoleiddiol a gwelliant parhaus ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru.

Bydd y dull hwn yn parhau i esblygu, ac rydym yn ymrwymedig i weithio gyda rhanddeiliaid i fireinio ein dulliau, ein disgwyliadau a'n canllawiau ategol dros amser. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio, bod yn agored ac ymddiriedaeth i ddatblygu system reoleiddio sy'n effeithiol, yn gymesur, ac yn canolbwyntio ar warchod buddiannau dysgwyr a'r cyhoedd ehangach.

Diben Monitro

Mae monitro'n ateb dau ddiben. Yn gyntaf, mae'n galluogi Medr i asesu a yw darparwyr yn ateb y gofynion sylfaenol a nodir mewn amodau cofrestru a chyllid. Yr amodau hyn yw'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i'r holl ddarparwyr eu cyrraedd i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu diogelu, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol, a bod hyder yn y system addysg drydyddol yn cael ei gynnal.

Yn ail, mae monitro'n cyfrannu at ein dyletswydd strategol ehangach i hybu gwelliant parhaus ar draws y sector. Mae hyn yn golygu defnyddio monitro nid dim ond i adnabod risgiau o ddiffyg cydymffurfio ac ymateb iddynt, ond hefyd i ddeall sut y mae darparwyr yn perfformio, sut y mae risgiau ar lefel y sector yn esblygu, a ble y gallwn ni gefnogi gwelliant trwy ymyrryd neu drwy roi cyngor a chanllawiau.

Egwyddorion sy'n Tanategu Ein Dull Monitro

Caiff ein dull ei arwain gan yr egwyddorion a nodir yn null rheoleiddio Medr. Mae hwn yn cynnwys disgwyliad eglur bod darparwyr yn cymryd y prif gyfrifoldeb am ddeall a chyflawni eu hymrwymadau rheoleiddiol. Byddwn yn annog darparwyr ac yn disgwyl i ddarparwyr fod yn dryloyw ynglŷn â risgiau sy'n dod i'r amlwg, ymgysylltu'n gynnar pan fo pryderon yn codi, a meithrin diwylliant o fod yn agored ac yn atebol. Byddwn yn mabwysiadu dull "dim syrpreisys" o fonitro, fel bod risgiau i gydymffurfedd a phryderon yn cael eu codi'n gynnar a darparwyr yn bod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â ni. Elfen ganolog o hyn yw ein pwyslais ar hunanadrodd. Disgwylir i ddarparwyr adnabod a datgelu materion sy'n peri

pryder trwy'r sianeli strwythuredig yr ydym wedi eu sefydlu, er enghraifft trwy'r broses digwyddiadau adroddadwy.

Yn yr un modd, rydym yn ymrwymedig i leihau baich diangen i'r eithaf. Rydym yn cydnabod bod darparwyr yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth a deinamig, ac mae ein dull wedi'i fwriadu i ganolbwyntio gweithgarwch monitro lle mae ei angen fwyaf. Byddwn yn ceisio osgoi dyblygu, symleiddio ceisiadau am ddata, a sicrhau bod y disgwyliadau a bennir gennym yn gymesur â'r risg a gwerth rheoleiddiol yr wybodaeth a gawn.

Ein Dull o Ymgysylltu â Darparwyr

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd eglurder ynghylch sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth a gesglir gennym. Mae'r wybodaeth fonitro a gawn yn hanfodol nid dim ond i asesu cydymffurfedd ag amodau rheoleiddiol ond hefyd i siapio natur ein perthynas â darparwyr. Rydym yn amcanu at sicrhau bod ein hymgysylltiad yn dal i fod yn gymesur ac yn parchu awtonomiaeth darparwyr, gan hefyd alluogi deialog ystyrlon ynglŷn â pherfformiad a chyfeiriad strategol sefydliadau.

Wrth ddatblygu'r dull hwn, rydym yn awyddus i wrando ar farn yr holl randdeiliaid.

Model 1

Gallai'r fframwaith monitro ddefnyddio model lle mae gwybodaeth fonitro yn bennaf yn goleuo ein dealltwriaeth am faterion cydymffurfio penodol wrth iddynt godi, gan beri ein bod yn mynd i'r afael â'r rhain yn unigol gyda darparwyr. Yn y dull hwn, mae strategaeth, perfformiad, a chyfeiriad ehangach sefydliadau'n dal i fod yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth darparwyr, gan gyd-fynd yn llawn ag egwyddorion awtonomiaeth sefydliadol. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ein hadnoddau'n uniongyrchol ar fynd i'r afael â materion cydymffurfedd a adnabyddir, gan ymateb yn eglur ac yn brydlon i amgylchiadau unigol.

Model 2

Fel arall, fe allem fabwysiadu dull mwy cyfannol, lle caiff yr wybodaeth fonitro ei dadansoddi'n gyfunol i gael dealltwriaeth gynhwysfawr am sefyllfa strategol pob darparwr, ei berfformiad ar y cyfan, a'i gynaliadwyedd hirdymor. Byddai dadansoddiad o'r fath yn sylfaen ar gyfer ymgysylltiadau strwythuredig bob hyn a hyn ag arweinwyr darparwyr, gan ei gwneud yn bosibl cael trafodaethau strategol ynglŷn â chyfeiriad yn y dyfodol yn ogystal â materion cydymffurfio ôl-weithredol. Gallai'r dull hwn feithrin deialog ehangach, gan wella cyd-ddealltwriaeth a chynorthwyo darparwyr i sicrhau bod eu huchelgeisiau strategol yn gyd-fynd â disgwyliadau rheoleiddiol.

Mae Medr yn cydnabod gwerth a goblygiadau'r ddau ddull. Wrth i ni roi ein fframwaith monitro ar waith, byddwn yn gwrando ar farn y sector a rhanddeiliaid i sicrhau bod cydbwysedd rhwng gweithgarwch monitro cydymffurfedd a dargedir ac ymgysylltiad strategol ehangach a byddwn yn mynegi ein safbwynt yn glir wrth yr holl ddarparwyr yn y sector addysg drydyddol.

Model sy'n Seiliedig ar Risg ac yn Gymesur

Bydd ein gweithgarwch monitro'n seiliedig ar risg. Byddwn yn ystyried dau ddimensiwn i risg wrth bennu natur a mynychder gweithgarwch monitro:

- **Parodrwydd i dderbyn risg sy'n gysylltiedig ag amod penodol** – er enghraifft, lle mae amod yn ymwneud ag ansawdd, llywodraethu a rheoli, neu gynaliadwyedd

ariannol, gall ein goddefiant ar gyfer risg fod yn is, ac felly gallwn ei gwneud yn ofynnol bod monitro mwy mynych neu ddwys yn digwydd.

- **Risg sy'n gysylltiedig â'r darparwr** – bydd hyn yn cael ei oleuo gan ystod o ffactorau, gan gynnwys maint a chymhlethdod y darparwr, a pherfformiad diweddar iawn. Byddwn hefyd yn monitro data a chuddwybodaeth arall gan gynnwys cwynion am ddarparwyr, a all amlygu materion diffyg cydymffurfio.

Lle mae llai o risg yn gysylltiedig â'r amod a'r darparwr, gallwn fabwysiadu dull monitro â chyffyrddiad ysgafnach. Gall hyn gynnwys ffurflenni llai mynych, mwy o ddibyniaeth ar hunanadrodd, neu bwyslais ar sicrwydd trydydd parti. I'r gwrthwyneb, lle mae mwy o risg yn gysylltiedig â'r amod neu'r darparwr, gallwn ei gwneud yn ofynnol ymgysylltu'n fwy rheolaidd, bod data'n cael ei ddadansoddi'n fanylach, neu gyflwyno tystiolaeth ychwanegol. Byddwn yn dryloyw ynglŷn â'r ffactorau yr ydym yn eu hystyried wrth asesu risg, a byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod ein dyfarniadau'n deg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur.

Isafswm Gofynion a Mynychder Gweithgarwch Monitro

Bydd yr holl ddarparwyr yn ddarostyngedig i set graidd o ofynion monitro i'n galluogi i gyflawni ein swyddogaethau statudol. Mae'r isafswm hwn o ran y gofynion yn angenrheidiol i sicrhau cydymffurfedd ag amodau cofrestru a chyllid a bydd hyn yn berthnasol ni waeth beth fo lefel risg y darparwr. Fel rhan o hyn, rydym yn rhagweld y cyflwynir **Ffurflen Sicrwydd Blynyddol** graidd, a honno'n cwmpasu meysydd allweddol o ran cydymffurfedd a risg. Yn ganolog i'r ffurfleni yma fydd y sicrwydd bod y corff llywodraethu neu fwrdd wedi perfformio asesiad mewnol cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau ei hun fod y darparwr yn cydymffurfio â'r holl amodau cofrestru a chyllido. Bydd angen i'r ffurflenni gyflwyno tystiolaeth addas i ddangos trylwyrdd a chywirdeb y broses sicrwydd. Gallai hon gael ei hategu, lle y bo'n briodol, gan ffurflenni testun-benodol sy'n cyd-fynd ag amodau lle ceir llai o barodrwydd i dderbyn risg, neu lle mae proffil risg y darparwr yn cyfiawnhau adroddiadau mwy mynych.

Yn ogystal â ffurflenni rheolaidd, byddwn yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth ac ymgysylltu eraill i oleuo ein gwaith monitro. Gallwn ddefnyddio dull mwy rheolaidd neu ad-hoc gan ddibynnu ar yr amgylchiadau a lefel y risg, ond rydym yn amcanu at roi eglurder i ddarparwyr ymlaen llaw ynghylch mynychder disgwyledig lle bynnag y bo'n bosibl.

Mathau o Weithgarwch Monitro

Gall monitro gynnwys un neu fwy nag un o'r gweithgareddau canlynol:

- **Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol**, sy'n cadarnhau fel y nodir uchod fod y corff Llywodraethu/Bwrdd wedi ymgymryd â sicrwydd trylwyr o gydymffurfiaeth, yn seiliedig ar dystiolaeth briodol;
- **Ffurflenni Sicrwydd Ariannol Blynyddol**, gan gynnwys rhagolygon, datganiadau ariannol archwiliedig a ffurflenni blynyddol neu gyfnodol eraill, a cheisiadau benthyca penodol fel y bo'n ofynnol;
- **Ffurflenni Data**, a all fod yn flynyddol neu'n gyfnodol, gan ddibynnu ar yr amod a'r wybodaeth sy'n ofynnol;
- **Ffynonellau Sicrwydd Annibynnol**, gan gynnwys adolygiadau ansawdd, arolygiadau, ac adroddiadau gan gyrff proffesiynol neu statudol;
- **Adolygiadau Thematig**, a gynhelir i archwilio testunau ar draws y sector cyfan, neu i ategu gwelliant mewn meysydd penodol;
- **Archwiliadau neu Hapwiriadau Data**, yn enwedig lle cyfyd pryderon ynghylch ansawdd data neu lle mae sicrwydd allanol yn gyfyngedig;

- **Gweithgareddau Ymgysylltu**, megis cyfarfodydd gydag uwch arweinwyr mewn darparwyr, cynrychiolwyr myfyrwyr, ac undebau llafur;
- **Monitro Cwynion**, gan gynnwys dadansoddi cwynion oddi wrth ddysgwyr a gafwyd gan Medr yn uniongyrchol neu drwy gynlluniau dynodedig, a;
- **Hunanadrodd**, trwy'r broses Digwyddiadau Adroddadwy, gan gynnwys digwyddiadau difrifol a digwyddiadau hysbysadwy.

Bydd y math o fonitro a'i ddwyter yn cael eu teilwra i'r proffil risg a byddant yn esblygu dros amser, mewn ymateb i dystiolaeth a datblygiadau newydd.

Rôl Digwyddiadau Adroddiadwy mewn Gweithgarwch Monitro

Mae ein proses Digwyddiadau Adroddadwy (fel rhan o'r amod llywodraethu a rheoli) yn elfen allweddol o'r dull hwn. Mae'n darparu mecanweithiau strwythuredig i ddarparwyr ddatgelu materion a all effeithio ar gydymffurfedd, hyfywedd ariannol, llywodraethu, diogelu dysgwyr neu hyder y cyhoedd.

Rhaid adrodd yn brydlon (o fewn pum niwrnod gwaith) am ddigwyddiadau difrifol, tra dylai digwyddiadau hysbysadwy gael eu cyflwyno'n rheolaidd. Caiff y digwyddiadau hyn eu hasesu fel rhan o'n gweithgarwch monitro a gallant arwain at gamau rheoleiddio pellach neu ddeialog reoleiddiol bellach. Mae'r wybodaeth a ddarperir trwy'r mecanweithiau hyn yn ategu ein gallu i wneud penderfyniadau cynnar, cymesur a gwybodus.

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr sefydlu trefniadau mewnol effeithiol i adnabod ac uwchgyfeirio digwyddiadau adroddadwy, gan gynnwys rolau eglur i'r corff llywodraethu. Gall methu ag adrodd am ddigwyddiadau yn unol â'r disgwyliadau, ynddo'i hun, fod yn gyfystyr â diffyg cydymffurfio.

Camau nesaf

Fframwaith cychwynnol yw'r dull hwn ac rydym yn ymrwymedig i weithio gyda darparwyr i'w fireinio ymhellach. Rydym yn croesawu adborth ar strwythur, mynychder, cymesuredd ac eglurder y model arfaethedig a byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i oleuo ei ddatblygiad yn y dyfodol.

Yn arbennig, mae gennym ddiddordeb ym marn darparwyr ynglŷn â sut orau i daro cydbwysedd rhwng sicrwydd a baich, sut y gall monitro ategu gwelliant yn ogystal â chydymffurfedd, a sut y gall Medr sicrhau bod ei oruchwyliaeth yn dal i fod yn seiliedig ar risg, â ffocws ar ddysgwyr ac yn ymatebol.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Amod: Cynaliadwyedd Ariannol

Rhaid i bob darparwr fod yn ariannol gynaliadwy.

Amod Cychwynnol neu Barhaus

Mae hwn yn **amod** cofrestru **cychwynnol** a **pharhaus**. Mae hwn hefyd yn **amod cyllid**.

Sail Gyfreithiol

Mandadir yr amod hwn dan **Adrannau 27 a 31 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022)**. Mae'n ofynnol i Medr ddatblygu amod mewn perthynas â'r canlynol: "cynaliadwyedd ariannol y darparwr". O dan **Adran 108**, mae'r Comisiwn hefyd yn gallu datblygu telerau ac amodau cyllid mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y darparwr. O dan Adran 80 mae'n ofynnol i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol o:

- (a) darparwyr cofrestredig;
- (b) darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru -
 - (i) sy'n sefydliadau o fewn y sector addysg bellach,
 - (ii) a gyllidir gan y Comisiwn o dan adran 97, a
 - (iii) nad ydynt yn ddarparwyr cofrestredig;
- (c) darparwyr addysg drydyddol eraill o fath a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Pam fod yr amod hwn yn bwysig a sut y mae'n cysylltu â dull rheoleiddio Medr?

Mae cynaliadwyedd ariannol yn tanategu'r broses o gyflawni ein holl ddyletswyddau a blaenoriaethau strategol.

Gofyniad

1. Mae 'ariannol gynaliadwy' yn golygu bod Medr yn barnu bod cynlluniau ac amcanestyniadau'r darparwr (gan gynnwys unrhyw is-gwmnïau neu endidau y mae'r arfer rheolaeth neu ddylanwad sylweddol drostynt) yn dangos bod ganddo ddigon o adnoddau ariannol a'u bod yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol.

2. Rhaid bod gan y darparwr gynlluniau credadwy i sicrhau y bydd yn:
- a) parhau i fod yn ariannol hyfyw yn y tymor byr, sef un i ddwy flynedd, heb unrhyw reswm i dybio bod y darparwr yn wynebu risg sylweddol o ansolfedd¹ o fewn y cyfnod hwn;
 - b) dal i fod yn ariannol gynaliadwy dros y tymor canolig (o leiaf dair i bum mlynedd);
 - c) sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor i sicrhau profiad dysgu o ansawdd da a, lle y bo'n berthnasol, ymchwil ac arloesi o ansawdd da;
 - d) cynnal digon o gynaliadwyedd ariannol i anrhydeddu'r ymrwymïadau y mae wedi eu gwneud i ddarparu'r cyrsiau trydyddol y mae wedi ymrwymo i'w darparu ac i ddarparu'r rhain yn llawn;
 - e) monitro cydymffurfedd â chyfamodau a hysbysu Medr lle disgwylir torri cyfamodau;
 - f) gofyn am gymeradwyaeth gan Medr cyn ymgymryd ag [ymrwymiad ariannol](#)² newydd lle mae Medr wedi hysbysu'r darparwr eu bod mewn trefn "cynyddu ymgysylltiad";
 - g) gofyn am gymeradwyaeth gan Medr cyn ymgymryd ag [ymrwymiad ariannol](#) newydd lle bydd y lefel fenthycyca'n uwch nag unrhyw drothwy lluosrif a/neu ariannol cymeradwy a gyfrifwyd ac a ddyroddwyd gan Medr yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd;
 - h) hysbysu Medr mewn modd amserol lle mae'r darparwr yn ystyried cynnig gwarant dros adeiladau'r darparwr i ategu ymrwymiad ariannol. Rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys cadarnhau ystyried priodoldeb y warant sy'n cael ei hystyried a pha un a oes angen ateb y gofynion sy'n ymwneud ag asedau a gaffaelir gan ddefnyddio arian cyhoeddus. Gweler y canllawiau ategol ynghylch [asedau a gaffaelir gan ddefnyddio arian cyhoeddus](#);
 - i) hysbysu Medr cyn ad-dalu balansau benthyciadau sylweddol yn gynnar, gan gynnwys rhesymeg ac ystyriaeth i'r uchdwr arian parod a ragwelir;
 - j) Monitro lefelau cyfalaf gweithio arian parod gweithredol a defnydd o orddrafftiau a hysbysu Medr os bydd perfformiad anffafriol yn dynodi mwy o bwysau ar gynaliadwyedd ariannol. Gallai'r rhain gynnwys, ymhlith eraill, ragolygon sy'n dynodi dirywiad mewn cyfalaf gweithio gweithredol i 30 diwrnod neu lai dros gyfnod estynedig, defnydd parhaus o gyfleusterau banc, colli neu ostyngiad mewn ffrydiau incwm arwyddocaol. Mae Medr yn disgwyl y bydd wedi cael ei hysbysu ymhell cyn unrhyw anawsterau i gwrdd â rhwymedigaethau.
3. Mae Medr yn cydnabod y gall fod amgylchiadau strategol sy'n golygu bod gan y sefydliad ddiffyg wedi ei gynllunio dros gyfnod byr; er enghraifft, buddsoddiad strategol ar gyfer twf, lle nad yw'r adenillion ar fuddsoddiad yn cael eu sylweddu ar unwaith.

¹ Mae 'ansolfedd' yn golygu bod y darparwr yn methu â thalu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae methu â thalu dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus yn meddu ar yr ystyr a roddir gan adran 123 Deddf Ansolfedd 1986, gan roi 'Medr' yn lle 'y llys' yn adran 123(2).

² Mae ymrwymïadau ariannol, neu fenthyciadau, yn cyd-fynd â'r diffiniad yn FRS102.

Monitro

1. Er mwyn monitro cydymffurfedd â'r amod parhaus sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol, ac i asesu sefyllfa a rhagolwg ariannol darparwyr unigol a'r sector yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Bydd Medr yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, wrth osod gofynion lleiaf safonol ar gyfer ymgysylltu a chasglu data er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.
2. Bydd Medr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyflwyno ffurflenni'n flynyddol er mwyn adrodd ar y lefel ofynnol o wybodaeth angenrheidiol. Er mwyn osgoi amheuaeth, tybir bod y ffurflenni hyn yn cynnwys pob gweithgaredd o fewn y strwythurau grŵp y mae'r darparwr yn gyfrifol amdanynt. Bydd y rhain yn cynnwys:
 - a) Datganiadau ariannol archwiliedig, llawn³ a baratowyd dan egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (Y DU neu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol). Rhaid i'r archwilydd fod yn annibynnol oddi ar y darparwr, ac oddi ar baratöwr y datganiadau ariannol, a bod wedi ei restru ar y Gofrestr Archwilwyr Statudol
 - i. Lle y bo'n berthnasol dylid mabwysiadu'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (FE/HE SORP) neu SORP perthnasol arall,
 - ii. Lle y bônt o fewn y cwmphas dylai darparwyr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon perthnasol a gyhoeddwyd gan Medr
 - b) Rhagolygon ariannol pum mlynedd, ynghyd â sylwebaeth i gyd-fynd â hwy, a gymeradwywyd gan gorff llywodraethu'r darparwr. Bydd hyn yn cynnwys manylion gweithgarwch modelu dirywiad a sensitifrwyd a gyflawnwyd wrth baratoi rhagolygon ariannol. Bydd y rhagolygon hyn yn cael eu trin fel gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol, oni bai y nodir fel arall, i sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i asesu'r risgiau mewn perthynas â'u cyflawni
 - c) Gall ffurflenni eraill fod yn ofynnol yn seiliedig ar y math o ddarparwr a'r lefel risg asesedig.
3. Wrth farnu a yw'r darparwr yn ariannol gynaliadwy, mae gwybodaeth arall y mae Medr yn ei hystyried yn cynnwys:
 - a) credadwyedd strategaeth ariannol y darparwr;
 - b) gwybodaeth arall sy'n ymwneud â sefyllfa ariannol y darparwr;
 - c) ymrwymadau cyfredol y darparwr;
 - d) ymrwymadau y mae'n rhesymol tybio bod y darparwr yn bwriadu eu cyflawni yn y dair i bum mlynedd nesaf;
 - e) gwybodaeth sy'n deillio o gwynion myfyrwyr neu staff neu unrhyw randdeiliaid neu ffynonellau sy'n berthnasol yn ôl ein hasesiad ni, sy'n dynodi unrhyw

³ Ni dderbynnir datganiadau ariannol cryno cwmnïau bychain.

faterion a allai gael dylanwad ar adnoddau ariannol⁴. Gall materion gynnwys, ymhlith eraill, faterion o ran enw da neu ansawdd; ac

f) unrhyw ddata arall, gwybodaeth arall neu wybodaeth gan y sector y mae Medr yn ystyried ei f/bod yn berthnasol.

4. Bydd Medr yn rhoi sylw i unrhyw ddibyniaethau ar gyfleusterau ariannol neu gymorth gan drydydd partïon, boed yn rhwymo'n gyfreithiol neu'n fynegiadau, fesul achos unigol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y telerau, gan gynnwys telerau ad-dalu a dod-i-ben a natur a chryfder ariannol y trydydd parti. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod Medr yn cael ei hysbysu'n llawn ynghylch ei gyfleusterau a chymorth ariannol. Os bydd yn angenrheidiol i Medr gyflwyno ymholiad uniongyrchol i unrhyw ddarparwyr trydydd parti, bydd Medr yn hysbysu'r darparwr ynghylch hyn.
5. Bydd Medr yn ymgysylltu â thimau cyllid darparwyr ar adegau rheolaidd a bennir gan Medr.
6. Gall Medr ofyn am ba bynnag wybodaeth ariannol arall sy'n ofynnol i gyflawni ei ddyletswyddau ond mae'n addo mai dim ond fel y bo'n angenrheidiol at ddiben eglur a lle mae'r cais yn gymesur y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu.
7. Os yw unrhyw ddangosyddion, neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i Medr, yn sbarduno pryderon bod proffil risg y darparwr yn y maes hwn wedi newid, gall Medr gynyddu ymgysylltiad a/neu ofyn am ragor o wybodaeth.
8. Bydd unrhyw asesiad o gynaliadwyedd sylfaenol yn cynnwys ystyried gofynion parhaus ar gyfer [rheoli ariannol](#), a gynhwysir o fewn yr amod Llywodraethu a Rheoli.
9. Bydd unrhyw asesiad o bryderon ynghylch cynaliadwyedd sylfaenol yn dibynnu ar gyd-destun a manylion penodol y darparwr. Bydd Medr yn gwneud asesiad lle mae'n credu bod seiliau rhesymol ar gyfer ansicrwydd ynghylch y broses ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd, a oleuir fel y bo angen gan ddeialog gyda'r darparwr.

Monitro Cychwynnol

10. Yn ystod y broses gofrestru gychwynnol bydd Medr yn cynnal asesiad cynhwysfawr o berfformiad a sefyllfa ariannol y darparwr, i oleuo asesiad risg Medr dan adran 27 y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Bydd hyn yn galluogi Medr i adnabod unrhyw wasgbwyntiau a meysydd risg ac i sicrhau bod yr amodau cofrestru parhaus a'r trefniadau monitro parhaus cysylltiedig a gymhwysir i'r darparwr ar adeg cofrestru'n gymesur â'r risg reoleiddiol.
11. Gall darparwyr ddangos cydymffurfedd â'r amod cychwynnol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol trwy gyflwyno tystiolaeth foddhaol o'u perfformiad ariannol blaenorol a chyfredol (lle mae'r darparwr wedi gweithredu'n flaenorol), yn ogystal â rhagolygon. Y dystiolaeth⁵ y byddai'n ofynnol ei chyflwyno i Medr fel arfer yw:

⁴ I osgoi amheuaeth, nid yw hyn yn gorfodi darparwr i barhau i gynnig cwrs neu ran o gwrs y mae'n barnu nad yw'n ariannol hyfyw mwyach, ar yr amod ei fod, wrth wneud hynny, yn anrhydeddu unrhyw ymrwymadau yr ymgwymerwyd â hwy eisoes.

⁵ Bydd Medr yn parchu cyfrinachedd masnachol, o fewn terfynau gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

- g) datganiadau ariannol archwiliedig llawn⁶ ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf, lle mae'r darparwr wedi bod yn weithredol ac yn darparu addysg drydyddol am y cyfnod hwn. Lle mae'r darparwr wedi bod yn weithredol am lai na thair blynedd, am y cyfnod y mae'r darparwr wedi bod yn weithredol ac yn darparu addysg drydyddol. Dylid paratoi'r rhain dan egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (Y DU neu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol). Rhaid i'r archwilydd fod yn annibynnol oddi ar y darparwr, ac oddi ar baratöwr y datganiadau ariannol, a bod wedi ei restru ar Gofrestr yr Archwilwyr Statudol;
 - h) tablau rhagolygon ariannol a ddarparwyd gan gorff llywodraethu'r darparwr (gan gynnwys cyllideb y flwyddyn gyfredol a rhagolygon pedair blynedd ar gyfer data ariannol a niferoedd y myfyrwyr, yn ogystal â manylion sylfaenol unrhyw gynlluniau twf neu ddadfuddsoddi). Bydd y rhain yn cynnwys manylion gweithgarwch modelu dirywiad a sensitifrwyd a gyflawnwyd wrth baratoi rhagolygon ariannol. Byddir yn tybio bod y rhagolygon hyn yn wybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol, oni bai y nodir fel arall, i sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i asesu'r risgiau mewn perthynas â'u cyflawni; ac.
 - i) sylwebaeth i ategu'r tablau rhagolygon ariannol i sicrhau bod Medr yn deall cyd-destun y darparwr a'r thybiaethau sy'n tanategu ei ragolygon.
12. Lle y bo'n berthnasol, bydd Medr hefyd yn ceisio gwybodaeth am:
- j) cynlluniau busnes darparwyr (yn enwedig lle mae'r darparwr yn wan yn ariannol neu'n newydd i'r farchnad, gyda dim ond hanes byr os o gwbl o weithrediadau a/neu ddarparu addysg uwch), gan gynnwys rhagolygon a thybiaethau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda;
 - k) manylion unrhyw fenthyciadau, boed o ffynonellau trydydd parti neu barti cysylltiedig;
 - l) gweithred ymgymeriad rheiniol sy'n rhwymo mewn cyfraith neu weithred ymgymeriad arall sy'n rhwymo mewn cyfraith, gan gynnwys tystiolaeth bod y gwarantwr yn gallu cyflawni'r weithred (os yw'r darparwr yn dibynnu ar warant o'r fath i gyflawni'r amod) – gall hyn gynnwys datganiadau ariannol archwiliedig lle mae'r gwarantwr yn gwmni neu endid tebyg a phrawf o bwy yw'r gwarantwr a'i ffynonellau cyllido.
 - m) manylion unrhyw fuddiannau neu warantau ariannol parti cysylltiedig neu drydydd parti eraill gan gynnwys tystiolaeth o fforddiadwyedd; ac
 - n) unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol arall, megis cymeradwyaeth gan y corff sy'n dilysu ar gyfer unrhyw ragolygon ynghylch niferoedd myfyrwyr, mynediad at gyllid banc neu ecwiti, ac unrhyw gyfyngiadau ar arian (er enghraifft, gan ymddiriedolaethau elusennol).
13. Lle mae darparwr yn rhan o grŵp mwy, dylid tybio bod yr wybodaeth benodedig yn cyfeirio at y grŵp cyfan er mwyn i Medr asesu perfformiad ariannol y grŵp cyfan. Dylai hyn gynnwys strwythur grŵp eglur.
14. Bydd unrhyw asesiad o gynaliadwyedd sylfaenol yn cynnwys ystyried y gofynion parhaus ar gyfer [rheoli ariannol](#), sydd wedi eu cynnwys o fewn yr Amod ar gyfer Llywodraethu a Rheoli.

⁶ Ni dderbynnir datganiadau ariannol cryno cwmnïau bychain.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion

Amod: Cynaliadwyedd Ariannol; Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)

Rheoli Ariannol

1. Rhaid i reoli ariannol ymestyn i oruchwyliaeth ar yr holl endidau sydd o fewn rheolaeth y grŵp.
2. Er mwyn rheoli eu materion ariannol yn briodol rhaid i ddarparwyr:
 - a) cynllunio a chynnal materion ariannol mewn modd cynaliadwy;
 - b) cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
 - c) paratoi datganiadau ariannol mewn perthynas â phob cyfnod cyfrifyddu;
 - d) sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i drefnu a rheoli materion ariannol, gan gynnwys [amgylchedd rheolaeth fewnol](#) digonol ac effeithiol, a;
 - e) paratoi a mynd ati'n rheolaidd i ddiweddarau rhagolygon o fewnlifoedd ac all-lifoedd arian parod dros y 12 mis nesaf o leiaf er mwyn monitro argaeledd arian parod gweithredol;
 - f) monitro cydymffurfedd â chyfamodau yn rheolaidd;
 - g) rhoi sylw dyladwy i werth am arian mewn perthynas â defnyddio cyllid cyhoeddus ac i gydymffurfio â gofynion elusennol;
 - h) sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ei ddiben yn unig ac nad yw'n cael ei ddefnyddio fel cymhorthdal ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhai cyhoeddus;
 - i) hysbysu Medr mewn modd amserol lle mae'r darparwr yn ystyried cynnig gwarant dros adeiladau'r darparwr i ategu ymrwymiad ariannol. Rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys cadarnhau ystyried priodoldeb y warant sy'n cael ei hystyried a pha un a oes angen ateb y gofynion sy'n ymwneud ag asedau a gaffaelir gan ddefnyddio arian cyhoeddus. Gweler y canllawiau ategol ynghylch [asedau a gaffaelir gan ddefnyddio arian cyhoeddus](#);
 - j) cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd(au) Cyfrifon perthnasol a ddyroddir gan Medr;

- k) cyflwyno ffurflenni ariannol mewn modd amserol a hysbysu Medr ymlaen llaw lle disgwylir oedi gyda ffurflenni. Dylai hyn gynnwys ffurflenni a gyflwynir i HESA neu TRAC (y Swyddfa Fyfyrrwyr);
 - l) lle mae trothwy benthycia cymeradwy wedi cael ei gyfrifo a'i ddyroddi gan Medr yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd:
 - i. monitro cydymffurfedd â'r trothwy (trothwy'r lluosrif a'r trothwy ariannol);
 - ii. hysbysu Medr mewn modd amserol os eir y tu hwnt i luosrif y trothwy;
 - iii. lle ystyrir benthyciad newydd a fydd yn mynd y tu hwnt i naill ai'r trothwy ariannol neu drothwy'r lluosrif, hysbysu Medr cyn gynted â phosibl a cheisio cymeradwyaeth i drothwy uwch, yn unol â chanllawiau Medr ynghylch [ymrwymiadau ariannol](#); a
 - iv. lle mae darparwr wedi cael ei hysbysu gan Medr eu bod dan drefn "cynyddu ymgysylltiad", rhaid ceisio cymeradwyaeth i'r holl fenthycia newydd, yn unol â chanllawiau Medr ynghylch [ymrwymiadau ariannol](#).
 - m) Dylai darparwyr wybod cost lawn eu gweithgareddau a defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau. Os nad yw darparwr yn ceisio adfer cost lawn gweithgaredd, gallai hyn fod o ganlyniad i bolisi eglur a bennwyd gan y corff llywodraethu ac sydd wedi ei gynnwys yn y strategaeth ariannol, a rhaid iddo beidio â chreu risg o roi'r darparwr mewn anhawster ariannol.
 - n) Dylai darparwyr sicrhau bod prosesau pennu cyllidebau a rhagfynegi ariannol yn cyd-fynd â chynllun strategol yr endid ac yn ei ategu.
3. Rhaid ymlynu wrth amod Medr sy'n ymwneud â [chynaliadwyedd ariannol](#).



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion

Amod: Cynaliadwyedd Ariannol; Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)

Trothwy Ymrwymadau Ariannol

Cwmpas a rhesymeg

1. Ymrwymadau ariannol yw'r rhwymedigaethau hynny sy'n cyfateb i'r diffiniad yn Safon Adrodd Ariannol 102 (neu safon gyfrifyddu ddiweddarach a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU).
2. Corff llywodraethu'r darparwr sy'n bennaf gyfrifol am asesu fforddiadwyedd ymrwymadau ariannol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy. Rôl Medr yw asesu a yw unrhyw ymrwymadau ariannol y mae'r darparwr yn ymgymryd â hwy'n creu heriau i gynaliadwyedd y darparwr neu'n dynodi materion o ran trefnu a rheoli materion ariannol.
3. Gall darparwyr wneud ymrwymadau ariannol hyd at drothwy rhagddiffiniedig. Mae'r trothwy hwn yn seiliedig ar gymhareb enillion darparwr cyn llog, trethiant, dibrisiant ac amorteiddiad (EBITDA) (fel y'u haddaswyd ar gyfer eitemau anweithredol) i'w fenthyciadau a godwyd ac nas codwyd.
4. Nid yw'r trothwy wedi ei fwriadu i atal darparwyr rhag cynyddu eu hymrwymadau ariannol lle y bo'n briodol. Rhaid i gorff llywodraethu'r darparwr bennu lefel yr ymrwymadau ariannol sy'n fforddiadwy ac yn gyson â'i strategaeth ariannol.
5. Diben adolygiad Medr yw penderfynu bod yr ymrwymadau ariannol arfaethedig yn fforddiadwy a bod y corff llywodraethu wedi craffu'n briodol arnynt. Nid oes gan Medr rôl mewn agweddau eraill ar yr ymrwymadau ariannol, megis pennu amodau neu gyfyngu ar ddefnyddio arian.
6. Yn unol â gwerth Medr sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector, byddem yn disgwyl cael ein gwneud yn ymwybodol o'r gofyniad ar gyfer cyllid cyn unrhyw gais ffurfiol, a byddem yn annog darparwyr i ymgysylltu â ni ar adeg gynnar lle gellid mynd y tu hwnt i drothwyon.

7. Os bydd y darparwr yn dewis bwrw ymlaen â benthycu lle nad yw Medr wedi rhoi ei sancsiwn, bydd hyn yn goleuo asesiad risg Medr ar y cyfan ar gyfer y darparwr hwnnw ac fe allai effeithio ar asesiad Medr o risg o ran cyllid, llywodraethu a chyfeiriad strategol. Mae'n bosibl, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, y bydd Medr yn penderfynu bod prosesau cynllunio ariannol gwael yn eu lle a all olygu yn y pen draw nad yw'r darparwr yn gynaliadwy.
8. Bydd pob cymeradwyaeth i fenthycu'n cael ei hadolygu a'u hailystyried o bryd i'w gilydd fel y bo'n berthnasol i sicrhau bod y rhain yn dal i fod yn briodol.

Amodau lle mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth

9. Rhaid i ddarparwyr y dyroddwyd trothwy benthycu iddynt ofyn yn ffurfiol am ganiatâd ymlaen llaw gan Medr ar gyfer unrhyw gynnydd mewn ymrwymadau ariannol lle mae unrhyw un neu rai o'r isod yn berthnasol:
 - a) maent wedi cael eu hysbysu eu bod wedi cael eu hasesu gan Medr fel darparwyr sydd mewn trefn "cynyddu ymgysylltiad";
 - b) byddai'r ymrwymiad ariannol newydd yn achosi i'r darparwr fynd y tu hwnt i'w drothwy ariannol cymeradwy;
 - c) mae sefyllfa ariannol asesedig ddiweddaraf y darparwr yn dynodi y byddai'r ymrwymiad ariannol newydd yn achosi iddo fynd y tu hwnt i'r lluosrif cymeradwy sydd yn ei le.

Amodau lle mae'n ofynnol hysbysu

10. Lle nad yw darparwr yn adnewyddu ymrwymiad ariannol rhaid hysbysu Medr ac fe all ostwng trothwy cymeradwy'r darparwr i adlewyrchu hyn.
11. Lle mae ailgylido'n disodli benthycu yr oedd yn ofynnol cael cymeradwyaeth iddo'n flaenorol rhaid i ddarparwyr hysbysu Medr lle mae'r telerau'n fwy beichus na'r rhai y cytunwyd arnynt yn wreiddiol.
12. Lle mae'r darparwr yn mynd y tu hwnt i'w drothwy ymrwymadau ariannol yn y dyfodol oherwydd dirywiad yn ei lif arian parod, nid oes angen iddo ymgeisio am drothwy uwch, ond rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu Medr ynghylch y ffaith hon. Er na fydd yn ofynnol gwneud cais am drothwy uwch, mae'r dirywiad mewn llif arian parod yn debygol o arwain at ymgysylltiad â'r darparwr ynghylch ei allu i gyflawni ei ymrwymadau ariannol. Ni fyddir yn ystyried bod senario o'r fath, ar ei ben ei hun, yn fethiant i ateb gofynion yr amod sy'n ymwneud â rheoli ariannol o fewn llywodraethu a rheoli, a bydd Medr yn ystyried y cyd-destun cyfan.

Proses ar gyfer cymeradwyo

13. Mae Medr yn defnyddio dull seiliedig-ar-risg o ymdrin â chais pob darparwr am gynnydd i'w drothwy ymrwymadau ariannol. Bydd y dull hwn yn pennu'r dull o ystyried y cais.
14. Cynghorir darparwyr i drafod eu cynlluniau'n anffurfiol gyda Medr ar adeg gynnar.
15. Dylai ceisiadau ganiatáu ffrâm amser resymol (o leiaf 6 wythnos waith fel arfer) i Medr archwilio'r cais a darparu barn. Dylid caniatáu rhagor o amser ar gyfer opsiynau

cyllido mwy cymhleth neu â mwy o risg er mwyn caniatáu amser i gael cyngor allanol lle y bo'n ofynnol.

16. Mewn ymateb i geisiadau am gymeradwyaethau i fenthycu, bydd Medr yn seilio unrhyw gymeradwyaethau ar ddata ariannol cytunedig, ond bydd yn defnyddio dull seiliedig-ar-risg pragmatig a chymesur.
17. Rhaid i swyddog atebol y darparwr (gan anfon copi at Gadeirydd Bwrdd y darparwr) gyflwyno cais ffurfiol i Brif Weithredwr Medr.
18. Dylai'r cais gynnwys ystyried y pwyntiau canlynol, gan gwmpasu'r meysydd a restrir fel rhai perthnasol ac unrhyw bwyntiau amlwg eraill sy'n ofynnol ar gyfer dealltwriaeth lawn am y rhesymeg ar gyfer y cais.

A. Dylai fod achos rhesymol dros y buddsoddiad newydd y mae'r cyllid ychwanegol yn ei ariannu (lle y bo'n berthnasol)

- i. Disgrifiad byr o'r buddsoddiad newydd.
- ii. Eglurhad o ba mor eang y mae'n cyd-fynd â chenhadaeth a blaenoriaethau strategol y darparwr.
- iii. Cadarnhad bod y darparwr wedi ystyried canllawiau priodol ynghylch arfarnu penderfyniadau buddsoddi.
- iv. Disgrifiad o sut y bydd budd dysgwyr yn cael ei ystyried.

B. Dylai'r ymrwymïadau ariannol newydd neu'r trefniant ailgyllido (lle bydd y rhain yn arwain at gynydd i'r trothwy ymrwymïadau ariannol) fod yn gyson â strategaeth ariannol y darparwr a bod yn werth da am arian.

- i. Eglurhad o'r rheswm pam y mae cyllid ychwanegol neu ailgyllido'n angenrheidiol a sut y mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth ariannol y darparwr.
- ii. Y mathau o gyllid a ystyriwyd a'r broses a'r meini prawf ar gyfer dethol.
- iii. Gwerth presennol net pob opsiwn cyllido, ac esboniad byr o'r rheswm pam fod y dewis ddull wedi cael ei ddewis, gan gynnwys ystyriaethau i werth am arian.

C. Manylion yr ymrwymïadau ariannol newydd.

- i. Manylion yr opsiwn a ddewiswyd, gan gynnwys enw'r benthyciwr, gwerth yr ymrwymiad ariannol newydd, cyfnod ad-dalu, y sail ar gyfer ad-dalu a chyfamodau ariannol.
- ii. Telerau ac amodau'r cyllido (megis copi o'r llythyr cynnig) a gwerthusiad o'r risgiau a phob ansicrwydd.

D. Rhaid i'r ymrwymïadau ariannol ac unrhyw fuddsoddiad newydd fod yn fforddiadwy.

- i. Diweddariad i'r rhagolygon ariannol, a hwnnw'n cynnwys effaith yr ymrwymiad ariannol newydd ar gyfanswm yr ymrwymïadau ariannol ac effaith buddsoddiadau sy'n llywio'r ymrwymiad ariannol newydd, a dangos eu bod yn fforddiadwy. Rhaid i'r diweddariad hwn gynnwys unrhyw newid perthnasol arall yn rhagolygon ariannol y darparwr, gan gynnwys gwarantau i drydydd partïon.
- ii. Manylion risgiau a gweithgarwch modelu dirywiad a gyflawnwyd i oleuo ystyriaethau i fforddiadwyedd, gan gynnwys cadw digon o arian parod hylifol

a'r hyn sy'n gyfwerth ag ef i ariannu gofynion cyfalaf gweithio yn ogystal â lefel ddarbodus o gronfa wrth gefn hylifol i allu galw arni yn achos dirywiadau nas rhagwelwyd.

E. Rhaid i corff llywodraethu'r darparwr fod wedi gwneud penderfyniad gwybodus am yr ymrwymadau ariannol newydd ac unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig.

- i. Manylion pryd y gwnaeth y corff llywodraethu gymeradwyo'r buddsoddiad ac ymrwymadau ariannol newydd, a chofnod o'r penderfyniad y daethpwyd iddo.
- ii. Crynodeb o'r wybodaeth a gafodd y corff llywodraethu ar gyfer dod i'r benderfyniad.
- iii. Cadarnhad:
 - nad oes unrhyw wybodaeth na barn allweddol mewn perthynas â'r ymrwymiad arfaethedig wedi cael ei chadw'n ôl oddi wrth y corff llywodraethu a bod y corff llywodraethu wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol a oedd yn ofynnol i alluogi unigolion rhesymol i ddod i gasgliad cytbwys, rhesymol;
 - yn dilyn cael yr wybodaeth hon, bod y corff llywodraethu wedi cymeradwyo'r benthycia, o leiaf mewn egwyddor fel y'i cyflwynwyd i Medr. Cydnabyddir bod cymeradwyaeth derfynol yn debygol o gael ei rhoi'n ddiweddarach, a;
 - bod y cynnig a ddarparwyd i Medr yr un fath â'r cynnig a ddarparwyd i'r corff llywodraethu.

F. Manylion y trothwy newydd.

- i. Manylion ymrwymadau ariannol presennol (gan gynnwys y benthyciwr, telerau, cyfradd llog a chyfamodau ariannol) a'r ymrwymadau ariannol newydd.
 - ii. Cyfrifiad o'r trothwy newydd sy'n ofynnol yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf a gymeradwywyd gan y corff llywodraethu. Mewn rhai amgylchiadau, lle gellir ystyried ei bod yn amhriodol defnyddio'r rhagolygon hyn, gall dogfennaeth arall gael ei chytuno gyda Medr fesul achos unigol.
19. Mae Medr yn cydnabod y gall y llinell amser ar gyfer darparu'r ddogfen sy'n ofynnol fod yn rhyngddibynnol. Fel dull pragmatig, unwaith y cafwyd sicrwydd digonol, gall Medr ddyroddi cymeradwyaethau yn amodol ar gael dogfennaeth derfynol.
20. Lle cymeradwyir cais am drothwy ymrwymadau ariannol uwch, bydd Medr yn ysgrifennu at y darparwr gan nodi'r trothwy diwygiedig. Gall y gymeradwyaeth gynnwys amodau ychwanegol y mae'n rhaid ymlynu wrthynt.

Templed ar gyfer cyfrifo trothwy benthyca


	Gwir. BI1 £'000	Gwir. BI2 £'000	Amcan. BI3 £'000	Rhagol. BI4 £'000	Rhagol. BI5 £'000	Rhagol. BI6 £'000	Cyfart. 6 blynedd £'000
Enillion wedi'u haddasu cyn llog, trethiant, dibrisiant ac amorteiddiad (EBITDA addasedig)							
a) Gwarged / (diffyg) gweithredu	15,000	(100)	10,000	11,000	12,000	13,000	
b) Ychwanegu: dibrisiant ac amorteiddiad	1,200	1,200	1,000	1,000	950	950	
c) Ychwanegu: llog sy'n daladwy	600	600	650	650	650	700	
d) Ychwanegu: costau ailstrwythuro	500	800	-	-	-	-	
e) Ychwanegu: debydau / (credydau) pensiwn nad ydynt yn arian parod	850	(520)	240	-	-	-	
f) Ychwanegu: debydau / (credydau) eithriadol	(5,000)	3,000					
g) Didynnu: grantiau cyfalaf derbyniadwy (perfformiad a chroniadau)	(2,000)	(6,000)	(1,900)	(1,950)	(2,000)	(2,050)	
h) Didynnu: Gwaddolion newydd derbyniadwy	(100)	-	(130)	(100)	(100)	(100)	
i) EBITDA wedi'u haddasu	11,050	(1,020)	9,860	10,600	11,500	12,500	9,082
j) Addaswyd ar gyfer diffygion	11,050	1	9,860	10,600	11,500	12,500	9,252
k) Ymrwymadau ariannol							
i) Benthyciadau			50,000				
ii) Consesiynau gwasanaethau a lesodd cyllid			30,000				
iii) Ymrwymadau heb eu codi			5,000				
iv) Ymrwymadau arfaethedig			-				
v) Cyfanswm gofyniad ymrwymadau ariannol			85,000				
l) Lluosrif			9.19				
m) Trothwy ariannol			86,000				

Nodiadau:

Bydd Medr yn cynnwys talgrynnu yn y trothwy ariannol a ddyroddir i ganiatáu trefnu benthyca gweithredol bach.

Bydd addasiadau i EBITDA yn seiliedig ar eitemau y gellir eu hadnabod o fewn y cofnod cyllid yn seiliedig ar y datganiadau ariannol a'r rhagolygon cyfrinachol a gyflwynwyd i Medr. Gall EBITDA addasedig mewrol y darparwr fod yn wahanol.

Siart lif y broses o roi cymeradwyaeth ar gyfer benthyca





Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheolaeth Ariannol)

Rhaid bod gan yr holl ddarparwyr drefniadau llywodraethu a rheoli digonol, gan gynnwys rheolaeth ariannol.

Amod Cychwynnol neu Barhaus

Mae hwn yn **amod** cofrestru **cychwynnol** a **pharhaus**. Mae hwn hefyd yn **amod cyllid**.

Sail Gyfreithiol

Mandadir yr amod hwn dan **Adrannau 27 a 31 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022)**. Mae'n ofynnol i Medr ddatblygu amod mewn perthynas â'r canlynol: "trefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais (gan gynnwys ei drefniadau rheoli ariannol)". O dan **Adran 108**, mae'r Comisiwn hefyd yn gallu datblygu telerau ac amodau cyllid mewn perthynas ag effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr (gan gynnwys ei rheolaeth ariannol).

Pam fod yr amod hwn yn bwysig a sut y mae'n cysylltu â dull rheoleiddio Medr?

Mae llywodraethu a rheoli (gan gynnwys trefniadau rheoli ariannol) yn tanategu'r broses o gyflawni ein holl ddyletswyddau a blaenoriaethau strategol.

Cyflwyniad

1. Gan y bydd gan ddarparwyr lefelau gwahanol o gymhlethdod (gan gynnwys maint, natur y busnes a ffurf gyfreithiol), gall gwahanol drefniadau rheoli a llywodraethu fod yn briodol i wahanol ddarparwyr. Efallai na fydd trefniadau sy'n briodol i ddarparwyr bychain yn briodol i ddarparwyr mawr, cymhleth, y rhai â phwerau dyfarnu graddau, neu â theitl prifysgol. Felly bydd angen i ddarparwr ddangos bod ei drefniadau rheoli a llywodraethu penodol yn briodol ar gyfer ei faint, ei gymhlethdod a'i amgylchedd risg.

2. Wrth farnu a yw darparwr wedi dangos trefniadau llywodraethu a rheoli digonol, mae deunydd y gall Medr ei ystyried yn cynnwys:
 - a) Trefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr a'u hasesiad o'r rhain;
 - b) Maint a chymhlethdod y darparwr a'r math o ddarparwr;
 - c) Y cod llywodraethu y mae'r darparwr yn dweud ei fod yn ymrwymedig iddo, priodoldeb y cod hwn, a gweladwyedd a chryfder yr ymrwymiad hwnnw;
 - d) Bod y darparwr yn gweithredu mewn ffordd agored ac atebol, gan wneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu tryloyw yn unol ag arferion llywodraethu da;
 - e) Y deilliannau a gyflawnir gan y darparwr, gan gynnwys pa un a yw'n cwrdd ag amodau cofrestru, a;
 - f) Pa un a yw'r darparwr yn cymryd camau gweithredu priodol i liniaru risg uwch y bydd yn torri ei amodau cofrestru.

Gofynion yr Amod

Llywodraethu Da

3. Mae'r corff llywodraethu a phawb sy'n gweithio i'r darparwr neu'n ei gynrychioli'n gweithredu ag uniondeb.
4. Mae'r corff llywodraethu yn mabwysiadu gwerthoedd, yn cymhwyso egwyddorion moesegol i wneud penderfyniadau ac yn creu diwylliant cefnogol sy'n addas i gyflawni dibenion y darparwr.
5. Mae'r corff llywodraethu'n adlewyrchu moeseg a gwerthoedd y darparwr ym mhopeth a wna. Mae aelodau'r corff llywodraethu'n cyflawni eu dyletswyddau gyda hyn mewn golwg.
6. Mae'r corff llywodraethu'n arwain y darparwr o ran bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol.
7. Mae cod llywodraethu cydnabyddedig a phriodol, lle mae cod o'r fath ar gael, wedi cael ei fabwysiadu gan y darparwr ac mae'n cael ei ddilyn.
8. Mae'r corff llywodraethu'n dilyn y gofynion o ran diwylliant a moeseg a nodir yn y cod llywodraethu priodol, lle mae cod o'r fath ar gael, yn ogystal â dilyn y safonau moesegol a nodir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan').
9. Mae'r egwyddorion a'r strwythurau a nodir yn nogfennau llywodraethu darparwyr a chanllawiau cysylltiedig ar gyfer y sector yn cael eu dilyn ac fe ymlynir wrthynt.

Corff Llywodraethu

10. Mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol ac atebol ar y cyd am gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer llywodraethu ffurf gorfforaethol y darparwr.
11. Mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol ac atebol ar y cyd am oruchwylio gweithgareddau'r

darparwr, am bennu ei gyfeiriad yn y dyfodol, meithrin amgylchedd lle cyflawnir cenhadaeth y darparwr a sicrhau bod y darparwr yn cyflawni ei ddiben mor effeithiol â phosibl â'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys lle mae partner cydweithredol yn cyflawni gweithgareddau ar ran darparwr dan drefniadau isgcontractio neu lle mae gan ddarparwr drefniadau dilysu.

12. Mae'r corff llywodraethu'n gweithio fel tîm effeithiol. Mae'r corff llywodraethu'n cynnwys y cydbwysedd priodol o ran gwybodaeth, sgiliau, cefndir, profiad, amrywiaeth ac annibyniaeth iddo gyflawni ei rolau a chyfrifoldebau llywodraethu'n wrthrychol ac yn effeithiol.

Cyfeiriad Strategol

13. Ceir dealltwriaeth a rennir am ddiben y darparwr ac ymrwymiad a rennir iddo, ac mae'r corff llywodraethu'n sicrhau bod y diben hwn yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn gynaliadwy.

Arwain a Rheoli

14. Arweinir pob darparwr gan dîm arwain a rheoli effeithiol sy'n darparu arweinyddiaeth strategol yn unol â nodau a gwerthoedd y darparwr.
15. Rhaid dynodi swyddog atebol ym mhob darparwr. Bydd Medr yn ystyried mai'r swyddog atebol sy'n gyfrifol yn anad neb am arwain materion academiaidd a rheolaeth weithredol y darparwr.
16. Lle mae gan ysgrifennydd y corff llywodraethu gyfrifoldebau sylweddol ar lefel uwch dîm gweithredol yn y darparwr, rhaid ystyried annibyniaeth ac atebolrwydd swydd yr ysgrifennydd.

Rhanddeiliaid

17. Rhaid i'r corff llywodraethu fod yn ymwybodol o'i randdeiliaid, gan gynnwys staff a dysgwyr. Rhaid i'r darparwr ymgysylltu'n effeithiol â'i randdeiliaid a'u hannog i gyfranogi er mwyn sicrhau bod ymddiriedaeth a hyder yn ei waith. Arweinir y rhyngweithiadau hyn gan y gwerthoedd, y foeseg a'r diwylliant a sefydlir gan y corff llywodraethu.

Rheoli Ariannol

18. Er mwyn rheoli eu materion ariannol yn briodol rhaid i ddarparwyr sefydlu systemau a rheolaethau priodol i gadw cofnodion ariannol o ansawdd a gronynogrwydd digonol er mwyn:
 - a) cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol;
 - b) galluogi goruchwyliaeth ar yr holl endidau o fewn rheolaeth y grŵp;
 - c) monitro lefelau arian parod, gofynion benthyciadau a chyfamodau a dangosyddion ariannol allweddol eraill ar sail briodol o ran edrych tua'r dyfodol i ganiatáu ymyriad strategol lle y bo'n ofynnol; a
 - d) darparu gwybodaeth amserol a chywir i ategu prosesau penderfynu,

trefniadau rheoli a llywodraethu da.

19. Dylai darparwyr wybod cost lawn eu gweithgareddau a defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau. Os nad yw darparwr yn ceisio adfer cost lawn gweithgaredd, dylai hyn fod o ganlyniad i bolisi eglur a bennwyd gan y corff llywodraethu ac sydd wedi ei gynnwys yn y strategaeth ariannol, a rhaid i hyn beidio â chreu risg o roi'r darparwr mewn anhawster ariannol.
20. Dylai darparwyr sicrhau bod prosesau pennu cyllidebau a rhagfynegi ariannol yn cyd-fynd â chynllun strategol yr endid ac yn ei ategu.
21. I gael canllawiau manwl cyfeirier at [reoli ariannol](#).

Rheoli Ystadau

22. Rhaid i ystâd darparwr gael ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy, gan gyfrannu at drefniadau rheoli ariannol cadarn ar gyfer y darparwr a chynnal a chadw'r ystâd o ran cynaliadwyedd amgylcheddol. I gael canllawiau manwl cyfeirier at [reoli ystadau](#).
23. Mae'n ofynnol i Medr ddiogelu a monitro asedau a ariannwyd â budd y trysorlys (asedau a brynwyd yn llawn neu'n rhannol gan ddefnyddio arian cyhoeddus gan Medr, cyrff cyllido a'i rhagflaenodd, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyngorau Ymchwil, a Swyddfa Cymru i golegau grant uniongyrchol a gwirfoddol blaenorol). Rhaid i ddarparwyr:
 - a) cynnal rhestr o asedau llog y trysorlys, gan gynnwys y gwerth gros a'r gwerth ar ôl dibrisiant. Rhaid i Medr gael ei hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau mewn perthynas ag asedau'r trysorlys, ac mae'n ofynnol cael cydsyniad ymlaen llaw dan rai amgylchiadau penodol. I gael canllawiau manwl cyfeirier at [asedau a gaffaelwyd gan ddefnyddio arian cyhoeddus](#).

Amgylchedd Sicrwydd

Gwasanaethau Archwilio Allanol

24. Rhaid i ddarparwyr:
 - a) cydymffurfio ag amodau Cyfarwyddyd(au) Cyfrifon Medr;
 - b) sicrhau yr ymlynir wrth arfer da o ran llywodraethu wrth reoli archwiliadau allanol.
25. Rhaid i'r archwilydd allanol:
 - a) bod wedi ei restru ar y Gofrestr Archwilwyr Statudol;
 - b) ymlynu bob amser wrth safonau proffesiynol a moeseg corff cyfrifyddu achrededig cydnabyddedig;
 - c) Cydymffurfio â gofynion adrodd Cyfarwyddyd(au) Cyfrifon blynyddol cyfredol Medr lle y bo'n berthnasol;
 - d) Rhoi sylw i gydymffurfio ag amodau cofrestru Medr sy'n effeithio ar gynaliadwyedd a rheoli ariannol.
26. I gael canllawiau manwl cyfeirier at [archwilio allanol](#).

Rheolaethau Mewnol a Rheoli Risg

27. Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer pob maes allweddol, gydag amserlen sy'n cyd-fynd â hwy i sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae prosesau sicrwydd yn bodoli i sicrhau y cydymffurfir â'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn a bod achosion o ddiffyg cydymffurfio neu feysydd lle ceir gwendidau'n cael eu hadnabod ac yr eir i'r afael â hwy.
28. Er mwyn i risgiau gael eu rheoli'n effeithiol, ceir parodrwydd i dderbyn risg sydd wedi'i ddogfennu'n ffurfiol, y cytunwyd arno gan y corff llywodraethu. Caiff risgiau eu rheoli yn unol â'r parodrwydd hwn i'w derbyn trwy fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaethau mewnol a sicrwydd, sy'n galluogi'r darparwr i fynd ati'n llwyddiannus i adnabod a rheoli risgiau presennol ac sy'n dod i'r amlwg sy'n fygythiad i gyflawni ei strategaeth neu ei gydymffurfedd â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol. Rhaid i'r fframwaith hwn gynnwys mapio sicrwydd.
29. Rhaid i ddarparwyr gynnal asesiad risg trylwyr o ddigwyddiadau anffafriol a allai arwain at bryderon ynghylch cynaliadwyedd. Wrth bennu i ba raddau y mae'r asesiad risg yn ystyried digwyddiadau anffafriol byddir yn cyfeirio at ddigwyddiadau y gallai unigolyn rhesymol, gwybodus ragweld eu bod yn achosi pryderon ynghylch cynaliadwyedd.
30. Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, gofynion rheoleiddiol a chanllawiau statudol perthnasol yn y gwledydd y maent yn gweithredu ynddynt a chyfathrebu mewn modd amserol gyda'r rheoleiddiwr, gan gynnwys am faterion perthnasol sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl.
31. Rhaid bod gan sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cydymffurfio â safonau archwilio mewnol perthnasol. Rhaid i'r holl ddarparwyr eraill sicrhau bod rheolaethau priodol yn eu lle ac yn cael eu hadolygu'n gyfnodol, er mwyn darparu sicrwydd ar gyfer y corff llywodraethu.
32. Mae'r corff llywodraethu'n sicrhau bod fframwaith cadarn yn ei le ar gyfer gwrthdaro buddiannau a chwythu'r chwiban.

Monitro

Amodau Cofrestru Cychwynnol

33. Wrth geisio cofrestriad gyntaf mae'n ofynnol i bob darparwr gyflwyno hunanasesiad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu a rheoli. Er mwyn cynnal asesiad cychwynnol o drefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr yn erbyn y gofynion a nodir uchod mae Medr yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

Hunanwerthusiad o drefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr. Rhaid i'r hunanwerthusiad ystyried y darparwr yn ei gyfanrwydd a rhaid iddo gwmpasu unrhyw strwythurau grŵp neu is-gwmnïau. Dylai'r hunanwerthusiad fod yn seiliedig ar y canlynol:

- i. cydymffurfedd â'r egwyddorion a nodir yn yr amod hwn;
- ii. cydymffurfedd â'r cod llywodraethu priodol;

- iii. unrhyw adolygiad diweddar o effeithiolrwydd y corff llywodraethu a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad;
- iv. offer a phrosesau rheoli risg;
- v. rheoli digwyddiadau adroddadwy;
- vi. unrhyw ffynonellau data a sicrwydd eraill;
- vii. sut y mae anghenion rhanddeiliaid wedi cael eu hystyried fel rhan o'r hunanwerthusiad;
- viii. dangos bod y broses hunanwerthuso'n gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth; a;
- ix. Dylid cyflwyno cynllun gwella'n barhaus gyda'r hunanwerthusiad sy'n adnabod unrhyw fylchau neu feysydd ar gyfer gwella ac yn dangos sut y byddir yn mynd i'r afael â'r rhain.

Ar gyfer darparwyr addysg uwch a darparwyr addysg bellach, dylai'r hunanwerthusiad fod yn seiliedig ar y canlynol hefyd:

- x. cydymffurfedd â'r canllawiau atodol sy'n ategu'r amod hwn;
- xi. unrhyw adolygiad diweddar o effeithiolrwydd pwyllgorau'r corff llywodraethu a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad;
- xii. adroddiadau blynyddol unrhyw rai o bwyllgorau corff llywodraethu'r darparwr;
- xiii. adroddiadau blynyddol archwilio mewnol ac allanol, a;
- xiv. cynllun archwilio mewnol;
- xv. gall Medr ofyn am ragor o wybodaeth a/neu gynnal adolygiadau o drefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr, lle mae o'r farn bod hyn yn angenrheidiol neu'n ddymunol i gadarnhau bod y darparwr yn cwrdd â'r amod cychwynnol.

Amodau Cofrestru Parhaus

- 34. Ar sail barhaus bydd Medr yn asesu i ba raddau y mae trefniadau llywodraethu a rheoli darparwr yn dal i fod yn ddigonol ac effeithiol. Bydd Medr yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau eraill i asesu hyn. Lle mae Medr o'r farn bod darparwr yn wynebu risg o dorri'r amod hwn, gall ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth ychwanegol a gall sefydlu trefniadau monitro ychwanegol.
- 35. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno ffurflen sicrwydd flynyddol.
- 36. Bydd digwyddiadau adroddadwy y mae darparwyr yn hysbysu yn eu cylch a chwynion y mae Medr yn eu cael yn erbyn darparwyr yn cael eu defnyddio fel metrigau i asesu trefniadau llywodraethu a rheoli darparwyr.
- 37. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnal hunanwerthusiad blynyddol. Ceidw Medr yr hawl i alw'r hunanwerthusiadau blynyddol hyn i mewn.
- 38. Os yw darparwr wedi mabwysiadu ac yn dilyn cod llywodraethu cydnabyddedig a phriodol, lle mae cod o'r fath ar gael, a bod y cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gynnal adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rhaid i'r darparwr hysbysu Medr ynghylch unrhyw ganfyddiadau o adolygiad o'r fath.
- 39. Os yw darparwr yn cael adroddiad archwilio mewnol sy'n mynegi sicrwydd negyddol ym maes llywodraethu a rheoli rhaid i'r darparwr rannu copi o'r adroddiad hwn gyda Medr unwaith y bydd wedi cael ei gytuno'n derfynol.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion

Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)

Rhaid i ddarparwyr addysg uwch wneud y canlynol:

- i. Cydymffurfio â'r canllawiau atodol ddwyroddwyd gan Medr ar gyfer yr amod cychwynnol a pharhaus sy'n ymwneud â Llywodraethu a rheoli (gan gynnwys rheoli ariannol).

Rhaid i ddarparwyr addysg bellach wneud y canlynol:

- i. Gweithio tuag at gydymffurfio â'r canllawiau atodol ar gyfer yr amod cychwynnol a pharhaus sy'n ymwneud â Llywodraethu a rheoli (gan gynnwys rheoli ariannol). Dylent gydymffurfio'n llawn erbyn 1 Awst 2027.

Llywodraethu Da

1. Rhaid i ddarparwyr drefnu bod dogfennau llywodraethu ar gael yn rhwydd ac yn gyhoeddus a threfnu bod adroddiadau a chofnodion ar gael yn gyhoeddus. Rhaid cadw'r deunydd a ddynodir yn gyfrinachol i'r lleiafswm angenrheidiol.
2. Rhaid i ddarparwyr drefnu bod cyfrifoldebau'r corff llywodraethu a'r swyddogaethau llywodraethu a gweithredol ar gael yn gyhoeddus, a hynny ar ffurf ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys y cadeirydd, y corff llywodraethu a'i bwyllgorau ar gyfer SAUau a SABau.
3. Rhaid i ddarparwyr sy'n elusennau esempt gydymffurfio â'r adran isod ar [elusennau esempt](#).
4. Rhaid i'r corff llywodraethu a phawb sy'n gweithio i'r darparwr ymlynu wrth Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a adwaenir hefyd fel Egwyddorion Nolan).

Diwylliant

5. Rhaid i ddarparwyr adnabod unrhyw fylchau rhwng y diwylliant gwirioneddol a dymunol. Rhaid i gamau gweithredu gael eu pennu a'u rhoi ar waith i gau'r bwlch i gyflawni'r diwylliant a ddymunir.
6. Rhaid i ddarparwyr asesu a monitro diwylliant a sut y gwreiddiwyd y diwylliant a ddymunir. Lle nad yw polisi, arferion neu ymddygiad drwy'r darparwr i gyd yn cydfynd â diben, gwerthoedd a strategaeth y darparwr, rhaid iddo geisio sicrhau y cymerir camau cywirol.

Corff Llywodraethu

Cyfansoddiad y corff llywodraethu

7. Ar gyfer darparwyr AU ac AB, fel arfer rhaid i hyd yr aelodaeth beidio â bod yn fwy nag uchafswm o 9 mlynedd, y gellir ei estyn i 10 mlynedd mewn achosion eithriadol.

Gweithrediadau'r corff llywodraethu

8. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gyllideb i'w defnyddio a mynediad at arbenigwyr annibynnol os yw'n ofynnol, megis cyngor cyfreithiol neu ariannol.

Cyfeiriad Strategol

9. Rhaid i ddarparwyr roi ystyriaeth i flaenoriaethau strategol Medr a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu cynlluniau strategol.

Arwain a Rheoli

10. Rhaid bod gan ddarparwyr gynllun olyniaeth sy'n effeithiol ac yn cael ei gynnal ar gyfer ei uwch dîm arwain.

Rhanddeiliaid

11. Rhaid i ddarparwyr gydnabod eu cyfrifoldebau ehangach tuag at gymunedau, y Gymraeg, rhanddeiliaid a chymdeithas ehangach, a gweithredu arnynt mewn modd sy'n gyson â'u diben, eu gwerthoedd a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.
12. Rhaid i ddarparwyr ystyried manteision gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill, yn lleol ac yn genedlaethol, lle bydd hyn yn hybu eu hamcanion a'u diben ymhellach. Rhaid i ddarparwyr gynnal diwydrwydd dyladwy cychwynnol a pharhaus wrth ymrwymo i drefniadau o'r fath i ddiogelu rhag risgiau ariannol, risgiau i'w henw da a risgiau eraill.

Pwyllgorau'r Corff Llywodraethu

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

13. Rhaid bod gan y pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol (neu bwyllgor cyfatebol) oruchwyliaeth ar gytundebau setlo a pheidio â datgelu (NDAs).

Amgylchedd Sicrwydd

14. Rhaid i archwilywyr mewnol ymlynu wrth safonau archwilio mewnol perthnasol bob amser⁷.
15. Ni ddylai archwilywyr mewnol ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau rheoli gweithredol, na bod ag unrhyw fudd – ariannol neu fel arall, uniongyrchol neu anuniongyrchol – yn y darparwr heblaw am y berthynas arferol fel cyflogai neu gontractwr (neu gyllido unrhyw wobr, ysgoloriaeth neu benodiad academiaidd).

Gwrthdaro Buddiannau

16. Rhaid i ddarparwyr gadw cofrestr gyhoeddus o fuddiannau, lletygarwch a rhoddion a gaiff ei monitro'n rheolaidd.

⁷ Ar gyfer sefydliadau AU ac AB, safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus neu safonau olynol fyddai'r rhain



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion

Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)

Rheoli Ystadau

Rheoli Ystadau

1. Mae ystadau darparwyr yn debygol o fod yn rhan sylweddol o sylfaen asedau'r darparwr. Mae prosesau trefnu a rheoli ariannol cadarn yn cynnwys rheoli'r ystâd yn dda.
2. Rhaid i ddarparwyr reoli eu hystâd mewn ffordd gynaliadwy, yn unol â strategaeth ystadau a chynllun cynnal a chadw, sy'n cwmpasu'r gofynion cynnal a chadw hirdymor a rheolaidd ar ei chyfer.
3. Mae'r angen i wella cynaliadwyedd ariannol a lleihau allyriadau carbon yn hanfodol i reoli'r ystâd yn effeithiol. Dylai darparwyr ddatblygu a chynnal systemau rheolaeth amgylcheddol a wiriwyd yn allanol a mynd ati i geisio cyfleoedd i leihau allyriadau carbon trwy reoli a datblygu'r ystâd yn effeithiol. Dylai cynllun rheoli carbon gael ei gynnal i fonitro a gwella eu perfformiad amgylcheddol tuag at sero net.
4. Dylid rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod lle'n cael ei reoli'n effeithiol. Dylai hyn gynnwys adolygu tir ac adeiladau a ddelir yn gyson, gan amcanu at resymoli a gwaredu'r rhai nad oes mo'u hangen mwyach yn nhyb darparwyr.
5. Lle y bo'n berthnasol rhaid i ddarparwyr ymlynu wrth ofynion y Comisiwn Elusennau mewn perthynas â gwaredu tir ac adeiladau elusen. Mae hyn yn cynnwys gofyniad dros y pris gwaredu mewn perthynas â gwerth marchnadol yr ased.
6. Lle mae asedau'n cael eu cynnig fel gwarant gyfochrog, rhaid i ddarparwyr hysbysu Medr ymlaen llaw.

Asedau a Gaffaelwyd Gan Ddefnyddio Arian Cyhoeddus

7. Lle mae gan ddarparwyr asedau a gaffaelwyd neu a adeiladwyd gan ddefnyddio arian cyhoeddus yn llawn neu'n rhannol, rhaid ceisio cydsyniad Medr cyn:
- a) codi unrhyw gyllid ar warant dros asedau o'r fath;
 - b) gwaredu asedau o'r fath lle mae'r prisiad yn uwch na gwerth marchnadol o £25,000;
 - c) rhoi'r gorau i ddefnyddio asedau o'r fath at eu diben bwriadedig;
 - d) lesio asedau o'r fath. Yn yr achos hwn dylai'r rhent neu gyfran briodol ohono (ar ôl didynnu unrhyw rent tir neu daliadau eraill, costau gweinyddu ac unrhyw wariant sy'n angenrheidiol i gadw'r eiddo mewn cyflwr i hawlio'r rhent hwnnw) gael ei d/thalu i Medr oni bai bod y gweithgareddau:
 - i yn osodiadau gwyliau
 - ii yn weithgareddau sy'n gymwys i gael cyllid gan Medr dan adran 22 Deddf 2022.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion

Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)

Elusennau Esempt

1. Lle mae darparwr yn elusen esempt, mae llawer o rwymedigaethau cyfreithiol elusen yr un fath, waeth a yw'n gofrestredig neu'n esempt. Mae hyn yn cynnwys corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru y mae eu prif reoleiddiwr yn Weinidogion Cymru (gan gynnwys Coleg Catholig Dewi Sant).
2. Rhaid i bob elusen gydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys y gofynion a nodir yn Neddf Elusennau 2011, ac mae'r gofynion hyn yn berthnasol i ddarparwr syn elusen esempt oni bai bod y Ddeddf Elusennau'n nodi'n benodol nad ydynt.
3. Mae'r Comisiwn Elusennau'n cyhoeddi canllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol y naill a'r llall. Er bod canllawiau'r Comisiwn Elusennau wedi'u fframio ar gyfer elusennau sydd wedi'u cofrestru gydag ef, mae cryn dipyn o'r canllawiau hyn yn berthnasol i ganllawiau esempt hefyd, gan bod rhaid iddynt hwythau gydymffurfio â chyfraith elusennau⁸.
4. I grynhoi, rhaid i ymddiriedolwyr:
 - a) sicrhau bod yr elusen yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd, a bod ei hasedau'n cael eu cymhwyso at ei dibenion elusennol ac at y dibenion hynny yn unig;
 - b) cydymffurfio â dogfen lywodraethu'r elusen a'r gyfraith;
 - c) gweithredu er budd pennaf yr elusen, gan gynnwys trwy reoli gwrthdaro buddiannau;
 - d) sicrhau bod yr elusen yn atebol;
 - e) rheoli adnoddau'r elusen mewn modd cyfrifol, gan gynnwys trwy reoli risgiau a diogelu ei hasedau a'i phobl; ac
 - f) gweithredu â gofal a sgil rhesymol.

⁸ Gweler www.gov.uk/government/publications/exempt-charities-cc23. Mae elusennau cysylltiedig elusennau esempt yn esempt hefyd dan baragraff 28 Atodlen 3 Deddf Elusennau 2011.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion

Amod: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)

Archwilwyr Allanol

Gwasanaethau Archwilio Allanol

1. Rhaid i ddarparwyr wneud y canlynol:
 - a) cyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig llawn i Medr ni waeth pa un a yw'n ofynnol paratoi'r rhain ar gyfer unrhyw gorff rheoleiddio arall;
 - b) hysbysu Medr mewn modd amserol ac ymlaen llaw ynghylch unrhyw oedi a ddisgwyllir cyn cyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig;
 - c) cydymffurfio â Safonau Moesegol ASB⁹ neu safonau olynol wrth ystyried hyd deiliadaeth pan fo'r partner arweiniol yn cael ei gylchdroi ac archwilwyr allanol yn cael eu hailbenodi a phrofi'r farchnad bob hyn a hyn yn unol â chanllawiau cyfredol;
 - d) darparu mynediad digyfngiad i archwilwyr allanol at wybodaeth – gan gynnwys yr holl gofnodion, asedau, personél a mangreuedd – a bod ag awdurdod i gael pa bynnag wybodaeth ac esboniadau y mae'r archwilydd allanol yn rhesymol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol, ac;
 - e) darparu ymatebion ysgrifenedig i unrhyw argymhellion a wneir neu faterion a godir yn adroddiad yr archwilydd allanol i'r corff llywodraethu.
2. Rhaid i'r archwilydd allanol:
 - a) bod yn annibynnol oddi ar y darparwr, ac oddi ar baratöwr y datganiadau ariannol. Rhaid i'r archwilydd allanol beidio ag ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau rheoli gweithredol, na bod ag unrhyw fudd – ariannol neu fel arall, uniongyrchol neu anuniongyrchol – yn y darparwr (heblaw am y berthynas arferol fel cyflogai neu gontractwr neu gyllido unrhyw wobr, ysgoloriaeth neu benodiad

⁹ Y Safon Foesegol ar gyfer Archwilwyr (frc.org.uk)

academaidd);

- b) bod wedi ei restru ar y Gofrestr Archwilwyr Statudol;
- c) ymlynu bob amser wrth safonau proffesiynol a moeseg corff cyfrifyddu achrededig cydnabyddedig;
- d) cydymffurfio â gofynion adrodd Cyfarwyddyd(au) Cyfrifon blynyddol cyfredol Medr lle y bo'n berthnasol;
- e) cyflwyno adroddiad (neu adroddiadau, os oes mwy nag un, sy'n cwmpasu camau gwahanol yn yr archwiliad blynyddol) i'r corff llywodraethu, sy'n cofnodi materion cyfrifyddu a diffygion mewn rheolaeth sy'n codi o'r archwiliad. Ar gyfer darparwyr sy'n elusennau cofrestredig, rhaid i unrhyw faterion mewn perthynas â defnyddio asedau elusennol at ddibenion nad ydynt yn elusennol gael eu hamlygu yn yr adroddiadau hynny;
- f) sicrhau bod yr adroddiad(au), gydag ymatebion y rheolwyr, ar gael i bwyllgor archwilio'r darparwr mewn pryd i oleuo adroddiad blynyddol y pwyllgor, a;
- g) rhoi sylw i gydymffurfio ag amodau cofrestru a chyllid Medr sy'n effeithio ar reoli ariannol.

Gwasanaethau Heblaw Archwilio

3. Rhaid i ddarparwyr:

- a) Cael cydsyniad eu pwyllgor archwilio lle gall gwasanaethau ychwanegol a gomisiynir gael dylanwad ar wrthrychedd ac annibyniaeth yr archwilwyr. Rhaid i waith ychwanegol beidio ag amharu ar annibyniaeth y farn archwilio allanol, a;
- b) hysbysu'r corff llywodraethu'n benodol, trwy'r pwyllgor archwilio, ynghylch unrhyw gais am gyfyngiad ar atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau heblaw archwilio.

4. Gall darparwyr:

- a) comisiynu archwilwyr allanol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol, a;
- b) cytuno â chyfyngiad ar atebolrwydd yr archwilydd allanol sy'n deillio o'i ddiffyg ar gyfer mathau eraill o waith a gyflawnir gan yr archwilwyr allanol. Gellir negodi hyn os gwneir y penderfyniad ar sail wybodus a bod yr atebolrwydd yn dal i fod ar lefel sy'n rhoi hawl ddigolledu resymol i'r darparwr;

Penodi a Diswyddo Archwilwyr Allanol

5. Wrth benodi archwilwyr allanol, rhaid i ddarparwyr wneud y canlynol:

- a) cytuno ar weithdrefnau i benodi darparwyr archwilio allanol sy'n cynnwys cyngor pwyllgor archwilio'r darparwr;
- b) sicrhau bod y meini prawf dethol a'r gweithdrefnau ar gyfer penodi darparwyr archwilio allanol yn cael eu pennu a'u cymeradwyo gan y pwyllgor archwilio cyn y ceir cynigion, a;
- c) sicrhau nad yw gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol yn cael eu darparu gan yr un cwmni neu ddarparwr na chwmni neu ddarparwr cysylltiedig.

6. Lle mae darparwyr yn rhoi'r gorau i ddal swydd am unrhyw reswm, rhaid iddynt:
- a) darparu i'r corff llywodraethu naill ai datganiad am unrhyw amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'u hymddiswyddiad neu ddiswyddiad y dylid eu dwyn i sylw'r corff llywodraethu yn eu tyb hwy, neu ddatganiad nad oes unrhyw amgylchiadau o'r fath; a
 - b) darparu copi o'r datganiad hwn i Medr o fewn tri mis i'r dyddiad y'i cafwyd gan y corff llywodraethu.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Amod: Ansawdd a Gwella'n Barhaus

Rhaid i'r holl sefydliadau sydd wedi'u cofrestru a / neu a gyllidir gan Medr, gydymffurfio â disgwyliadau a gofynion a nodir yn y Fframwaith Ansawdd ar gyfer y Sector Addysg Drydyddol.

Gwybodaeth Berthnasol Arall

Mae'r amod hwn yn berthnasol i'r holl ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda a/neu a gyllidir gan Medr.

Amod Cychwynnol neu Barhaus

Mae hwn yn **amod** cofrestru **Cychwynnol** a **pharhaus**. Mae hwn hefyd yn **amod cyllid**.

Sail Gyfreithiol

Dan **adrannau 27 a 31 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**, mae'n ofynnol i Medr bennu amod cofrestru cychwynnol a pharhaus:

"sy'n ymwneud ag ansawdd y math o addysg drydyddol a ddarperir gan, neu ar ran, y darparwr y mae'r categori cofrestru yn ymwneud ag ef"

Mae dyletswydd strategol ar y Comisiwn (dan **adran 5** y Ddeddf) i hybu gwelliant parhaus yn ansawdd addysg drydyddol yng Nghymru. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i'r Comisiwn roi sylw (ymhlith pethau eraill):

- i bwysigrwydd sicrhau bod aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol yn gallu darparu addysg drydyddol o ansawdd uchel;
- i ofynion rhesymol aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol am ddatblygiad proffesiynol parhaus;
- i bwysigrwydd barn dysgwyr ynghylch ansawdd yr addysg drydyddol a gânt.

Dan Bennod 2 y Ddeddf gall y Comisiwn gyhoeddi fframweithiau sicrhau ansawdd, gan nodi canllawiau a gwybodaeth ynghylch meini prawf a phrosesau ar gyfer asesu ansawdd

addysg drydyddol, a rolau a chyfrifoldebau personau sy'n asesu ansawdd, a darparwyr, o ran ansawdd.

Dan **Adran 108** y Ddeddf, rhaid i'r Comisiwn ystyried a yw'n bwriadu gosod telerau ac amodau sy'n ymwneud ag "ansawdd yr addysg berthnasol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr".

Pam fod yr amod hwn yn bwysig a sut y mae'n cysylltu â dull rheoleiddio Medr?

Mae'r amod hwn yn bwysig i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth o ansawdd sy'n gyson yn dda ar draws pob rhan o'r system addysg drydyddol.

Atebolrwydd: Mae'r amod hwn yn dal darparwyr yn atebol am ansawdd eu darpariaeth, a'u hymgysylltiad â'r gofyniad i geisio gwelliant parhaus. Mae hyn yn cynnwys pob maes o fewn profiad y dysgwyr yn eu darparw(y)r.

Canllawiau ac adnoddau eglur: Mae'r amod yn canolbwyntio ar gydymffurfio â chanllawiau eglur a nodir gan Medr, a fydd yn ei dro'n cynnwys rhannu enghreifftiau o arfer da ac effeithiol ar draws y sector addysg drydyddol i lywio gwelliant parhaus.

Hyrwyddo Arfer Gorau: Mae'r ffocws ar wella'n barhaus wedi'i fwriadu i feithrin diwylliant o hybu gweithgarwch i werthuso a rhannu arfer gorau, gan amcanu at wella a helaethu profiad dysgwyr.

Gofynion Cydymffurfio

I gydymffurfio â'r amod hwn, rhaid i'r darparwr ateb y gofynion a nodir yn y Fframwaith Ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

1. **Ymgysylltu â dysgwyr:** sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynnwys yn llawn mewn gweithgarwch i ddylunio prosesau sicrhau ansawdd a gwella'n barhaus a rhoi'r prosesau hynny ar waith, rhoi'r cod ymgysylltu â dysgwyr ar waith, bod â chynlluniau diogelu dysgwyr effeithiol lle y bo'n ofynnol, a sicrhau bod gweithgarwch hunanwerthuso a chynllunio gwelliant parhaus yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda dysgwyr.
2. **Llais y dysgwr:** ystyried barn dysgwyr ynglŷn ag ansawdd eu haddysg (gan gynnwys prosesau sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwella'n barhaus), sicrhau cynrychiolaeth effeithiol o blith dysgwyr ar gyrff llywodraethu/ byrddau a phwyllgorau a'u bod yn cyfranogi mewn arolygon llais y dysgwr, ac ymateb i adborth gan ddysgwyr.
3. **Ymgysylltiad y corff llywodraethu/ bwrdd:** Gan fod llywodraethu a rheoli yn allweddol i sicrhau addysg o ansawdd da, rhaid i'r darparwr sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n weithredol â'r corff llywodraethu/bwrdd wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer asesu ansawdd yn fewnol a gwelliant parhaus. Gall trefniadau aneffeithiol sydd yn arwain at ganlyniadau gwael o ran ansawdd nid yn unig effeithio ar gydymffurfiaeth â'r amod ansawdd yma, ond hefyd ar gydymffurfiaeth â'r amod llywodraethu a rheoli.

4. **Hunanwerthuso:** cynnal hunanwerthusiad rheolaidd a thrylwyr mewn partneriaeth gyda dysgwyr a staff, dadansoddi ddata ac dangos eu dealltwriaeth am eu cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau, a defnyddio'r deilliannau fel rhan o raglen strategol o weithgarwch i wella profiad dysgwyr.
5. **Allanoldeb:** ymgysylltu'n weithredol ag asesiadau ansawdd allanol o'i holl ddarpariaeth; chwilio am gyfleoedd i gydweithio ag eraill lle bydd hyn yn ychwanegu gwerth, a gwerthuso effaith yr ymgysylltiad; a defnyddio meincnodi a chyfeirbwyntiau allanol i lywio gwelliant parhaus.
6. **Gwella'n barhaus:** ennyn ymgysylltiad dysgwyr a staff â datblygu a chyflawni cynlluniau gwella'n barhaus, ymgysylltu â rhwydweithiau perthnasol i rannu a dysgu o arfer effeithiol, cydweithio i fynd i'r afael â heriau a rennir, cyfranogi'n weithredol mewn adolygiadau datblygol fel y bo'n briodol, rhannu arfer da i lywio arloesedd a rhagoriaeth yn ansawdd y profiad dysgu ar draws pob rhan o'r sector, ceisio gwella darpariaeth trwy brosesau ansawdd mewnol a myfyrio ynghylch prosesau a chamau gweithredu allanol sy'n ymwneud ag ansawdd.
7. **Dysgu a datblygu proffesiynol:** cefnogi staff i ymgymryd â dysgu a datblygu proffesiynol, gan gynnwys cyfleoedd i ymrwymo â'r Gymraeg, a gwella darpariaeth a defnydd o'r Gymraeg; cydweithio â staff, gan ddefnyddio egwyddorion partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu strategaethau dysgu proffesiynol a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith buddsoddi mewn dysgu proffesiynol; rhannu arfer da, gan archwilio dulliau cydweithredol lle be modd; a chefnogi staff i gyrraedd safonau proffesiynol priodol.

Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn trwy'r mecanweithiau canlynol:

- **Deilliannau asesiadau ansawdd allanol:** mae hyn yn cynnwys arolygiadau ac adolygiadau. Bydd deilliannau adolygiadau datblygiadol / thematig / daearyddol yn goleuo'r gweithgarwch monitro hefyd.
- **Dadansoddi data:** Bydd Medr yn monitro amrywiaeth o ddata, fel a nodir yn y Fframwaith. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei gyd-destunoli a meincnodau'n cael eu defnyddio lle y bo'n bosibl.
- **Gwybodaeth:** gall hyn gynnwys deilliannau adolygiadau o ansawdd a gyflawnwyd gan gyrff eraill, cwynion am ansawdd a safonau a gyflëwyd i Medr neu sefydliadau eraill, materion a godwyd gan sefydliadau eraill (fel a nodir yn y Fframwaith Ansawdd), ymgysylltiadau â chyrrff dyfarnu.
- **Adroddiadau darparwyr:** Bydd Medr yn ystyried gwybodaeth sy'n berthnasol i ansawdd a gynhwysir mewn adroddiadau ehangach ar berfformiad a gyflwynir gan ddarparwyr fel sy'n ofynnol gan yr amodau cofrestru a chyllid ar y cyfan.
- **Monitro Seiliedig-ar-Risg:** Gall sefydliadau a adnabuwyd fel rhai sy'n wynebu risg uwch o ddiffyg cydymffurfio oherwydd materion blaenorol neu newidiadau sylweddol mewn gweithrediadau orfod mynd trwy brosesau monitro mwy mynych.

Bydd Medr yn cyflawni ystod o weithgareddau posibl mewn ymateb i berfformiad yn erbyn y conglfeini hyn. Gall y gweithgareddau hyn amrywio o ymyrryd i sicrhau cydymffurfedd darparwyr â gofynion o ran y trothwy ar gyfer perfformiad, i hwyluso cydweithio i hybu

gwelliant ac arloesi. Bydd methiant i gydymffurfio â gofynion monitro'n ysgogi ymchwiliad pellach ac ymyriadau posibl.

Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r Fframwaith Ansawdd a'r amodau cyllid a / neu gofrestru cysylltiedig i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau mewn polisi, ac adborth gan randdeiliaid. Ceir disgwyliad y bydd sefydliadau rheoleiddiedig yn goleuo rhan allweddol o'r ddolen adborth honno. Bydd darparwyr yn cael eu hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau gyda rhybudd digonol i'w galluogi i gynllunio a chydymffurfio.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Amod: Sylw i Gyngor a Chanllawiau

Rhaid i'r holl sefydliadau sydd wedi'u cofrestru gyda Medr yn y categorïau **Craidd ac Amgen Addysg Uwch** sicrhau bod eu corff llywodraethu'n rhoi:

“sylw i gyngor neu ganllawiau a roddir gan y Comisiwn i'r corff (naill ai yn benodol neu i bersonau yn gyffredinol) wrth arfer swyddogaethau'r Comisiwn o dan y Ddeddf hon;”

Ac felly:

- Yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i unrhyw gyngor neu ganllawiau a ddyroddir gan y Comisiwn, boed wedi'i gyfeirio/wedi'u cyfeirio'n benodol at y sefydliad neu wedi'i ledaenu/wedi'u lledaenu'n fwy eang i'r sector.
- Yn integreiddio canllawiau'r Comisiwn o fewn fframweithiau penderfynu strategol a gweithredol ar y lefel lywodraethu.
- Yn dangos sut y mae canllawiau o'r fath wedi cael eu gwerthuso a, lle y bo'n berthnasol, eu hymgorffori mewn gweithrediadau llywodraethu, datblygu polisi, a gweithdrefnol sefydliadol.

Gwybodaeth Berthnasol Arall

Mae'r amod hwn yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd wedi'u cofrestru gyda Medr, ni waeth beth fo'u categori.

Amod Cychwynnol neu Barhaus

Mae hwn yn **amod** cofrestru **parhaus**. Mae hwn hefyd yn **amod cyllid**.

Sail Gyfreithiol

Caiff yr amod hwn ei nodi dan **Adran 31 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** sy'n grymuso'r Comisiwn i osod amodau sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i gorff llywodraethu darparwr roi ystyriaeth ddyladwy i unrhyw ganllawiau neu ddatganiadau cynghori a ddyroddir fel rhan o gyflawni swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn. Ar ben hynny, dan **Adran 37 y Ddeddf** pennir y gall y Comisiwn roi, neu wneud trefniadau ar

gyfer rhoi, cyngor neu gynhorthwy arall i ddarparwr cofrestredig at ddiben sicrhau cydymffurfedd gan y darparwr â'i amodau cofrestru parhaus.

Dan **Adrannau 99 a 104 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**, rhaid i'r Comisiwn ddatblygu telerau ac amodau cyllid sy'n ei gwneud yn ofynnol yn ôl-weithredol i ddarparwyr addysg bellach a phrentisiaethau roi sylw i gyngor neu ganllawiau a roddwyd gan y Comisiwn.

Pam fod yr amod hwn yn bwysig a sut y mae'n cysylltu â dull rheoleiddio Medr?

Mae mandadu sylw sefydliadol i gyfarwydddebau cynghori Medr yn tanategu **sector addysg drydyddol sy'n dryloyw, yn atebol, ac yn cael ei reoleiddio'n effeithiol**. Mae'r amod hwn yn cynnal:

Tryloywder: Rhaid i ddarparwyr ddangos sut y maent wedi gwerthuso ac ymateb i ganllawiau Medr, gan felly sicrhau natur agored cydymffurfedd rheoleiddiol a phrosesau llywodraethu.

Atebolrwydd: Mae cyrff llywodraethu'n ysgwyddo cyfrifoldeb am fynd ati i ystyried a, lle y bo'n briodol, gweithredu canllawiau Medr i gynnal cysondeb â disgwyliadau rheoleiddiol.

Cydlynid y Sector: Mae cymhwyso canllawiau Medr yn gyson yn meithrin unfurfedd mewn safonau cydymffurfio ar draws y sector, gan ddwyn budd i fyfyrwyr a rhanddeiliaid.

Cydymffurfio Rhagweithiol: Mae disgwyl i ddarparwyr ymgorffori mewnwelediadau rheoleiddiol Medr o fewn eu prosesau llywodraethu, gan felly leihau'r tebygolrwydd o ymyriadau gorfodi.

Gofynion Cydymffurfio

I gydymffurfio â'r amod hwn, rhaid i'r darparwr:

1. **Gwerthuso Canllawiau** – Adolygu canllawiau a ddyroddwyd gan Medr yn ffurfiol a dogfennu ystyriaeth iddynt ar lefel y corff llywodraethu.
2. **Integreiddio fel rhan o Drefniadau Llywodraethu** – Dangos sut y mae canllawiau Medr wedi dylanwadu ar eu prosesau cynllunio strategol, gwneud penderfyniadau strategol, a llunio polisi.
3. **Cadw Cofnodion a Thystiolaeth** – Cynnal cofnodion gwiriadwy sy'n dangos sut y mae'r corff llywodraethu wedi ymgysylltu â chanllawiau Medr, wedi eu hystyried a, lle y bo'n briodol, wedi gweithredu arnynt.
4. **Adrodd yn Flynyddol ar Gydymffurfedd** – Bydd hi'n ofynnol i ddarparwyr gadarnhau'n flynyddol eu bod wedi ystyried cyngor a chanllawiau.
5. **Cyfiawnhad dros Wyro** – Lle mae darparwr yn dewis peidio ag ymlynu wrth ganllawiau Medr, rhaid iddo gyflwyno eglurhad ffurfiol i Medr sy'n amlinellu ei resymeg ac unrhyw ddull arall a fabwysiadwy.

Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn trwy'r mecanweithiau canlynol:

- **Adrodd yn Flynyddol ar Gydymffurfedd:** Bydd hi'n ofynnol i ddarparwyr gadarnhau trwy system gofrestru Medr eu bod wedi parhau i gydymffurfio â'r amod hwn
- **Adolygiadau Archwilio a Llywodraethu:** Ceidw Medr yr awdurdod i gynnal archwiliadau, gan gynnwys archwilio cofnodion llywodraethu, polisïau darparwyr, a thrafodaethau cyrff llywodraethu, i sicrhau cydymffurfedd.
- **Goruchwyliaeth Seiliedig-ar-Risg:** Bydd darparwyr â hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio, tueddiadau dirywiol yn y data mewn meysydd sy'n flaenoriaeth neu a adnabuwyd fel rhai sy'n wynebu risg o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol yn rhai y creffir yn fwy arnynt.
- **Ymgynghori â Rhanddeiliaid:** Bydd adborth gan fyfyrwyr, staff, a chyrff eraill perthnasol yn y sector yn goleuo gwerthusiad Medr o gydymffurfedd darparwyr.

Bydd methu â chydymffurfio â gofynion monitro'n ysgogi ymchwiliad pellach ac ymyriadau posibl.

Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn o bryd i'r gilydd i sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol ac yn effeithiol mewn ymateb i ddatblygiadau yn y sector, esblygiad polisi, ac adborth rhanddeiliaid. Bydd sefydliadau'n cael rhybudd digonol o unrhyw newidiadau i hwyluso gwaith i gynllunio ar gyfer cydymffurfio ac addasiadau sefydliadol.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Amod: Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrrwyr

Rhaid i'r holl sefydliadau sydd wedi'u cofrestru gyda Medr, gan gynnwys y rhai yn y categorïau **Craidd Addysg Uwch** ac **Amgen Addysg Uwch**:

- i. Sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr am ddarparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei contractau â myfyrwyr yn eglur ac yn gywir.

Gwybodaeth Berthnasol Arall

Mae'r amod hwn yn berthnasol i'r holl ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda Medr, ni waeth beth fo'u categori. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn cael eu hysbysu'n llawn am eu hawliau a'u rhwymedigaethau ac yn cael eu trin yn deg trwy gydol eu taith fel myfyrwyr.

Amod Cychwynnol neu Barhaus

Mae hwn yn **amod** cofrestru **cychwynnol** a **pharhaus**.

Sail Gyfreithiol

Mae Rhan 4 **Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024** yn cynnwys darpariaethau ar gyfer amod cofrestru cychwynnol a pharhaus i sicrhau bod Medr "wedi ei fodloni o ran yr wybodaeth y mae'r darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais yn ei darparu i ddarpar fyfyrwyr ynghylch y darparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei contractau â myfyrwyr".

Pam fod yr amod hwn yn bwysig a sut y mae'n cysylltu â dull rheoleiddio Medr?

Mae sicrhau bod gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr yn eglur ac yn gywir yn cyd-fynd ag ymrwymiad Medr i ddull sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr, lle mae anghenion a lles myfyrwyr yn ganolog i'r holl weithgareddau rheoleiddiol.

Tryloywder: trwy sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am eu haddysg, meithrin ymddiriedaeth rhwng myfyrwyr a sefydliadau. Mae'r tryloywder hwn yn allweddol i greu amgylchedd addysgol agored a hygyrch.

Atebolrwydd: Mae'r amod hwn yn sicrhau bod sefydliadau'n atebol am eu harferion a'u rhwyngweithiadau gyda darpar fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau marchnata a recriwtio teg a thryloyw, ac yr ymlynir wrth gontractau myfyrwyr.

Llesiant Myfyrwyr a'u Diogelu: Gyda ffocws ar weithrediadau sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr, mae Medr yn gweithio i ddiogelu darpar fyfyrwyr rhag arferion annheg megis gwybodaeth gamarweiniol neu ymdrin â chwynion mewn modd annigonol.

Gofynion Cydymffurfio

I gydymffurfio â'r amod hwn, rhaid i'r sefydliad wneud y canlynol:

1. **Darparu Gwybodaeth Eglur:** Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata, gwybodaeth am gyrsgau, a thelerau cytundebol yn gywir, yn eglur, ac nad ydynt yn gamarweiniol.
2. **Sicrhau Telerau Teg:** Adolygu contractau a thelerau ac amodau ar gyfer myfyrwyr i sicrhau eu bod yn deg ac yn cydymffurfio â chyfraith diogelu defnyddwyr.
3. **Sicrhau Hygyrchedd Gwybodaeth:** Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata, gwybodaeth am gyrsgau a thelerau cytundebol yn hygyrch i'r ystod lawn o ddarpar fyfyrwyr yng Nghymru.
4. **Cynnal Proses Gwynion Gadarn:** Gweithredu a chynnal proses hygyrch, dryloyw, a theg ar gyfer ymdrin â chwynion, gan hysbysu myfyrwyr ynghylch eu hawliau i uwchgyfeirio cwynion i gyrrff allanol os oes angen.
5. **Hyfforddiant a Diweddariadau Rheolaidd:** Darparu hyfforddiant rheolaidd ar gyfer staff am ofynion cyfraith diogelu defnyddwyr a sicrhau bod arferion yn cael eu diweddarau yn unol â deddfwriaeth berthnasol.
6. **Ymlynu wrth Ddeddfwriaeth Berthnasol:** Er enghraifft, Addysg Uwch: Cyngor ynghylch Cyfraith Defnyddwyr i Ddarparwyr fel y'i hamlinellir gan [Llywodraeth y DU](#), neu wedi hynny unrhyw gyngor a chanllawiau a roddir gan Medr.

Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn trwy'r mecanweithiau canlynol:

- **Hunanasesiad Cychwynnol:** Bydd hi'n ofynnol i sefydliadau sy'n ceisio dod yn gofrestredig hunanasesu yn erbyn yr amod. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ategu gan amrywiaeth o dystiolaeth sy'n tanategu cydymffurfedd â'r amod.
- **Datganiad Cydymffurfio Blynyddol:** Rhaid i sefydliadau gyflwyno datganiad blynyddol sy'n cadarnhau ymlyniad wrth yr amod hwn, gan gynnwys manylion sut y maent yn sicrhau cydymffurfedd ac unrhyw fesurau a gymerwyd i ymdrin â materion posibl.
- **Archwiliadau ac Adolygiadau:** Gall Medr gynnal archwiliadau bob hyn a hyn i wirio cydymffurfedd â'r amod hwn, gan gynnwys adolygu contractau myfyrwyr, deunyddiau marchnata, a phrosesau cwynion.
- **Monitro Seiliedig-ar-Risg:** Gall sefydliadau a adnabuwyd fel rhai sy'n wynebu risg o ddiffyg cydymffurfio oherwydd materion blaenorol neu newidiadau sylweddol mewn gweithrediadau gael eu monitro'n fwy mynych.

- **Mecanweithiau Adborth:** Bydd Medr yn ystyried adborth gan fyfyrwyr, rhanddeiliaid, ac o ffynonellau eraill (gan gynnwys yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd lle y bo'n briodol) i adnabod unrhyw faterion posibl o ran cydymffurfio â therfynau ffioedd. Bydd yr adborth hwn yn goleuo prosesau monitro a phenderfynu Medr.

Bydd methu â chydymffurfio â gofynion monitro'n ysgogi ymchwiliad pellach ac ymyriadau posibl.

Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu yr amod yma i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau mewn polisi, ac adborth gan rhanddeiliaid. Ceir disgwyliad y bydd sefydliadau rheoleiddiedig yn goleuo rhan allweddol o'r ddolen adborth honno. Bydd sefydliadau'n cael eu hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau gyda digon o rybudd i'w galluogi i gynllunio a chydymffurfio.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Amod: Terfynau Ffioedd

Rhaid i ddarparwr yn y categori **Craidd Addysg Uwch**

- (a) Bod â datganiad terfyn ffioedd a gymeradwywyd gan Medr
- (b) sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys.

Gwybodaeth Berthnasol Arall

Ni fydd yr amod sy'n ymwneud â therfynau ffioedd yn cael ei gymhwyso i'r Categori Amgen Addysg Uwch. Bydd cyrsiau addysg uwch lefel israddedig amser llawn perthnasol darparwyr sy'n cofrestru yn y categori Amgen Addysg Uwch yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd dysgu ar y gyfradd is ([£6,355 y flwyddyn ar hyn o bryd](#)).

Amod Cychwynnol neu Barhaus

Mae hwn yn **amod** cofrestru **cychwynnol** a **pharhaus**. Rhaid i'r sefydliad ymlynu'n barhaus wrth y terfynau ffioedd a bennir gan Medr ar gyfer yr holl gyrsiau cymhwysol trwy gydol cyfnod ei gofrestriad.

Sail Gyfreithiol

Mandadir yr amod hwn dan **Adran 32 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022)**. Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno ac ymlynu wrth **Ddatganiad Terfyn Ffioedd** sy'n nodi uchafswm y ffioedd y gellir eu codi am yr holl gyrsiau cymhwysol, fel y'i hamodwyd gan Medr. Rhaid i'r ffioedd a godir beidio â mynd uwchlaw'r terfynau ffioedd cymeradwy.

Pam fod yr amod hwn yn bwysig a sut y mae'n cysylltu â dull rheoleiddio Medr?

Mae'r **Amod Terfynau Ffioedd** yn hollbwysig i sicrhau bod addysg drydyddol yn dal i fod yn hygyrch, yn fforddiadwy, ac yn deg, gan warchod buddiannau myfyrwyr ar yr un pryd.

Cymesuredd

Mae dull rheoleiddio Medr yn sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio'n cael ei gymhwyso'n gymesur, gan ganolbwyntio ymdrechion lle mae eu hangen fwyaf. Mae'r **Amod Terfynau Ffioedd** yn helpu i reoleiddio ffioedd mewn ffordd sy'n diogelu myfyrwyr rhag costau gormodol, heb roi baich diangen ar sefydliadau. Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng ffioedd ar y naill law ac ansawdd yr addysg a ddarperir ar y llaw arall, gan gynorthwyo sefydliadau i gyflawni gwerth heb godi gormod ar ddysgwyr.

Tryloywder

Mae tryloywder yn agwedd graidd ar ddull rheoleiddio Medr. Mae'r **Amod Terfynau Ffioedd** yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau gyfleu strwythurau ffioedd yn eglur, gan helpu dysgwyr i ddeall eu rhwymedigaethau ariannol cyn cofrestru. Mae'r tryloywder hwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu haddysg, gan ategu diwylliant o fod yn agored rhwng sefydliadau a dysgwyr.

Atebolrwydd

Mae Medr yn dal sefydliadau'n atebol am ansawdd yr addysg a'r ffioedd y maent yn eu codi. Mae'r **Amod Terfynau Ffioedd** yn sicrhau nad yw sefydliadau ond yn gallu codi ffioedd sy'n adlewyrchu gwerth yr addysg a ddarperir. Disgwylir i sefydliadau gyfiawnhau eu ffioedd trwy safonau dysgu ac addysgu uchel, gan wneud yn siŵr bod myfyrwyr yn cael gwerth am arian.

Llesiant Myfyrwyr a'u Diogelu

Mae diogelu myfyrwyr yn ganolog i ddull rheoleiddio Medr. Mae'r Amod Terfynau Ffioedd yn diogelu dysgwyr rhag bod ffioedd uwchlaw'r terfyn neu annheg yn cael eu codi arnynt, gan leihau'r risg o galedi ariannol. Mae eu diogelu fel hyn yn hollbwysig i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu canolbwyntio ar eu haddysg heb straen ariannol ormodol, yn enwedig i grwpiau agored i niwed neu'r rhai o gefndiroedd difreintiedig.

Gofynion ar gyfer Datganiad Terfyn Ffioedd

Yn unol ag **Adrannau 46 a 47 Deddf 2022**, rhaid i'r sefydliad gyflwyno **Datganiad Terfyn Ffioedd**, sy'n cynnwys:

1. Nodi uchafswm y ffioedd y gellir eu codi am bob cwrs cymhwysol, gan hefyd orfod:
 - a) Pennu terfyn ffioedd, neu
 - b) Darparu ar gyfer penderfynu terfyn ffioedd.
2. Rhestr o'r holl gyrsiau cymhwysol y mae'r terfyn ffioedd yn gymwys iddynt, gan gynnwys cyrsiau cymhwysol a ddarperir ar ei ran.
3. Y cyfnod pan fydd y ffioedd yn cael eu codi.
4. Dadansoddiad manwl o'r ffioedd, gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol y gall myfyrwyr eu hysgwyddo, megis deunyddiau, offer, neu deithiau maes.
5. Bod wedi cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r undeb myfyrwyr neu gyrrff cynrychioliadol eraill, a'i fod felly'n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr o ran y strwythurau ffioedd arfaethedig a'u heffaith bosibl ar fynediad a chynhwysiant.

Rhaid i'r sefydliad sicrhau bod yr holl ffioedd a godir yn dal i fod o fewn y terfynau a nodir yn y **Datganiad Terfyn Ffioedd cymeradwy**. Rhaid cyflwyno'r datganiad i Medr i gael ei gymeradwyo cyn dechrau pob blwyddyn academaidd a'i gyhoeddi mewn modd sy'n hygyrch iawn i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol.

Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn trwy'r mecanweithiau canlynol:

1. **Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfio â Ffioedd:** Rhaid i sefydliadau gyflwyno **Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfio â Ffioedd**, sy'n cadarnhau bod yr holl ffioedd a godir ar fyfyrwyr yn cydymffurfio â'r **Datganiad Terfyn Ffioedd** cymeradwy.
2. **Archwilio a Gwirio:** Gall Medr gynnal archwiliadau i wirio bod ffioedd a godir ar fyfyrwyr yn unol â'r terfynau a amlinellir yn y Datganiad Terfyn Ffioedd. Rhaid i sefydliadau gydweithredu ag unrhyw geisiadau am wybodaeth neu ddogfennaeth i ategu gweithgareddau monitro.
3. **Monitro Seiliedig-ar-Risg:** Gall Medr gynyddu mynychder ei weithgarwch monitro ar gyfer sefydliadau a adnabuwyd fel rhai sy'n wynebu risg uchel yn seiliedig ar ddiffyg cydymffurfio blaenorol, codiadau sylweddol mewn ffioedd, neu ffactorau risg eraill.
4. **Mecanweithiau Adborth:** Bydd Medr yn ystyried adborth gan fyfyrwyr, rhanddeiliaid, ac o ffynonellau eraill i adnabod unrhyw faterion posibl o ran cydymffurfio â therfynau ffioedd. Bydd yr adborth hwn yn goleuo prosesau monitro a phenderfynu Medr.

Bydd unrhyw wriad oddi wrth y terfynau ffioedd cymeradwy neu fethiant i gydymffurfio â gofynion monitro'n ysgogi ymchwiliad pellach ac ymyriadau posibl.

Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod terfynau ffioedd hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau mewn polisi, ac adborth gan randdeiliaid. Disgwylir y bydd sefydliadau rheoleiddiedig yn goleuo rhan allweddol o'r ddolen adborth honno. Bydd sefydliadau'n cael eu hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau gyda digon o rybudd i'w galluogi i gynllunio a chydymffurfio.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Amod: Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth

Rhaid i gorff llywodraethu darparwr yn naill ai'r categori **Craidd Addysg Uwch** neu'r categori **Amgen Addysg Uwch**:

- i. "hysbysu Medr am unrhyw newid y mae'n dod yn ymwybodol ohono sy'n effeithio ar gywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yng nghofnod y darparwr yn y Gofrestr."

A:

- ii. "hysbysu Medr am unrhyw newid y mae'n dod yn ymwybodol ohono sy'n effeithio ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru."

Amod Cychwynnol neu Barhaus

Mae hwn yn **amod** cofrestru **parhaus**. Rhaid i'r sefydliad ymlynu'n barhaus wrth y gofyniad i hysbysu Medr am unrhyw newid sy'n effeithio ar gywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yng nghofnod y darparwr yn y Gofrestr.

Sail Gyfreithiol

Mandadir yr amod hwn dan **Adran 31 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022)**, sef ei bod hi'n ofynnol i Medr ddatblygu "amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r darparwr hysbysu'r Comisiwn am unrhyw newid y mae'n dod yn ymwybodol ohono sy'n effeithio ar gywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yng nghofnod y darparwr yn y gofrestr". Caiff yr amod hwn ei nodi ymhellach dan Reoliadau **10(c) ac 11(b) Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024** ei bod hi'n ofynnol i Medr ddatblygu "amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r darparwr hysbysu'r Comisiwn am unrhyw newid y mae'n dod yn ymwybodol ohono sy'n effeithio ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru".

Pam fod yr amod hwn yn bwysig a sut y mae'n cysylltu â dull rheoleiddio Medr?

Diben hysbysu am newidiadau, sy'n effeithio ar gywirdeb y Gofrestr gyhoeddus, yw sicrhau bod Medr yn gallu cynnal ei Gofrestr fel cofnod awdurdodol a chywir o'r darparwyr y mae ganddo oruchwyliaeth reoleiddiol arnynt, i hysbysu myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a'r cyhoedd ehangach.

Cymesuredd

Mae dull rheoleiddio Medr yn sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio'n cael ei gymhwyso'n gymesur, gan ganolbwyntio ymdrechion lle mae eu hangen fwyaf. Mae'r **Amod Cywirdeb Gwybodaeth** yn helpu i ategu ein gallu i wneud hyn trwy sicrhau y gallwn ddibynnu ar yr wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr wrth asesu risg.

Tryloywder

Mae tryloywder yn agwedd graidd ar ddull rheoleiddio Medr. Mae'r **Amod Cywirdeb Gwybodaeth** yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gyfleu newidiadau a all effeithio ar eu cofrestriad yn eglur. Mae'r tryloywder hwn yn sicrhau bod gennym yr wybodaeth y mae ei hangen i gyflawni ein rôl reoleiddio a'n bod ni'n gallu gwneud yr wybodaeth honno'n gyhoeddus, lle y bo'n briodol, trwy'r gofrestr gyhoeddedig.

Atebolrwydd

Mae Medr yn dal darparwyr yn atebol am eu cydymffurfedd ag amodau cofrestru. Mae'r **Amod Cywirdeb Gwybodaeth** yn helpu i ategu ein gallu i wneud hyn trwy sicrhau y gallwn ddibynnu ar yr wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr wrth ymgysylltu â darparwr ynghylch eu cydymffurfedd.

Llesiant Myfyrwyr a'u Diogelu

Mae diogelu myfyrwyr yn ganolog i ddull rheoleiddio Medr. Mae'r **Amod Cywirdeb Gwybodaeth** yn helpu i ategu ein gallu i wneud hyn trwy sicrhau ein bod yn gallu dibynnu ar yr wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr mewn perthynas â myfyrwyr a chysiau.

Gofynion Hysbysu

- i. Yn unol ag **Adran 31 Deddf 2022**, rhaid i'r darparwr gyflwyno gwybodaeth pryd bynnag y mae'r wybodaeth ar y Gofrestr wedi dod yn anghywir. Mae'n debygol mai'r darparwr fydd prif ffynhonnell gwybodaeth wedi ei diweddarau, a bydd disgwyl iddo fod yn rhagweithiol o ran darparu'r wybodaeth hon. Mae Medr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr ei hysbysu am unrhyw newid o fewn **28 o ddiwrnodau calendr** i'r dyddiad y bydd y darparwr yn gwneud y newid, neu'n dod yn ymwybodol ohono. Rhaid anfon unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol gyda'r hysbysiad hwn i alluogi Medr i wirio bod y newid i'r wybodaeth ar y gofrestr yn ofynnol. Bydd y dystiolaeth sy'n ofynnol i wirio newid yn amrywio gan ddibynnu ar y newid, er enghraifft efallai mai'r URL ar gyfer gwefan newydd neu brawf o gyfeiriad lle mae'r cyfeiriad cyswllt wedi newid fydd hyn. Gall Medr ofyn am ragor o wybodaeth os yw'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol. Bydd Medr yn diweddarau'r Gofrestr â'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ganddo am ddarparwr.
- ii. **Mae Rheoliad 10(a) Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024** yn ei gwneud yn ofynnol i Medr ddatblygu amod cofrestru parhaus ar gyfer

darparwyr yn y categori craidd “sy’n ymwneud â statws parhaus y darparwr fel elusen”. Rhaid i Medr gael ei hysbysu am newidiadau i Statws Elusennol ar gyfer darparwyr yn y categori craidd cyn gynted ag sy’n ymarferol bosibl.

Mae Rheoliadau 10(c) ac 11(b) Rheoliadau’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i Medr ddatblygu “amod sy’n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu’r darparwr hysbysu’r Comisiwn am unrhyw newid y mae’n dod yn ymwybodol ohono sy’n effeithio ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru”. Rhaid i Medr gael ei hysbysu am newidiadau o’r natur hon cyn gynted ag sy’n ymarferol bosibl, unwaith y caiff y penderfyniad hwnnw ei ystyried gan Gorff Llywodraethu’r darparwr.

(i) Hysbysu am newidiadau i gywirdeb gwybodaeth a gynhwysir yng nghofnod darparwr addysg drydyddol yn y gofrestr

Mae Rhan (i) o’r amod hwn yn ymwneud â phob un o’r gofynion canlynol o ran gwybodaeth yng nghofnod darparwr addysg drydyddol yn y gofrestr:

- a) enw’r darparwr, gan gynnwys unrhyw enwau masnachu neu unrhyw enwau a roddwyd drwy neu yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu unrhyw Siarter Frenhinol,
- b) pan fo enw’r darparwr yn cynnwys y gair “prifysgol”, pa un a gafodd y defnydd o’r enw hwnnw —
 - i. ei awdurdodi drwy Siarter Frenhinol, ac os felly, pryd
 - ii. cydsyniad y Cyfrin Gyngor o dan adran 77(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(7), ac os felly, pryd
 - iii. ei gymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor at ddibenion adran 39(1)(b) neu (2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (8), ac os felly, pryd, neu
 - iv. ei awdurdodi drwy neu yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth arall o Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, ac os felly, pryd
- c) cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn y gellir eu defnyddio i gysylltu â’r darparwr,
- d) cyfeiriad prif fan busnes y darparwr, neu gyfeiriad sy’n addas fel arall ar gyfer cyflwyno dogfennau i’r darparwr,
- e) cyfeiriad y brif wefan a gynhelir gan, neu ar ran, y darparwr,
- f) y math o addysg drydyddol a ddarperir gan, neu ar ran, y darparwr,
- g) y categori y mae’r darparwr wedi ei gofrestru ynddo a’r dyddiad y cafodd y darparwr ei gofrestru yn y categori hwnnw,

- h) a yw amodau cofrestru parhaus y darparwr yn cynnwys amod terfyn ffioedd ac, os felly, fanylion sut i gael gafael ar ddatganiad terfyn ffioedd y darparwr fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiwn o dan adran 47 o'r Ddeddf,
- i) a yw'r darparwr yn elusen ac, os felly —
 - i. ei rif cofrestru elusen, neu
 - ii. os nad yw'r darparwr wedi ei gofrestru â rheoleiddiwr elusennau, y rheswm pam nad yw'n ofynnol iddo gofrestru â rheoleiddiwr elusennau,
- j) a yw'r darparwr yn gwmni, a'i rif cofrestru cwmni (pan fo'n gymwys),
- k) pa un a gafodd y darparwr ei awdurdodi i roi dyfarniadau a addysgir neu ddyfarniadau ymchwil neu'r ddau ac, os felly, pryd —
 - i. drwy Siarter Frenhinol,
 - ii. drwy orchymyn gan y Cyfrin Gyngor o dan adran 76(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(9), neu
 - iii. drwy neu o dan unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig,
- l) os yw'r darparwr wedi ei awdurdodi i roi dyfarniadau a addysgir neu ddyfarniadau ymchwil neu'r ddau gan awdurdodiad y cyfeirir ato ym mharagraff (k) uchod, disgrifiad o'r dyfarniadau a addysgir neu'r dyfarniadau ymchwil y mae wedi ei awdurdodi i'w rhoi,
- m) a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniadau dilysu, ac
- n) a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniadau breinio.

(ii) Hysbysu am Newidiadau sy'n effeithio ar statws elusennol y darparwr neu ei statws fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru

Mae Rhan (ii) yr amod hwn yn ymwneud â'r canlynol, sy'n effeithio'n berthnasol ar allu darparwr i gael ei gynnwys ar y gofrestr:

- a) Unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â'r amod Statws Elusennol, ar gyfer darparwyr yn y categori craidd.
- b) Newid i gyfeiriad prif fan busnes y darparwr, neu gyfeiriad sy'n addas fel arall ar gyfer cyflwyno dogfennau i'r darparwr,

Os ystyrir nad yw unrhyw ddarparwr un darparu darpariaeth Addysg Uwch yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru mwyach, ni fyddant yn gymwys i fod wedi eu cofrestru gyda Medr.

Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn trwy'r mecanweithiau canlynol:

- Bydd disgwyl i ddarparwyr hysbysu Medr os yw unrhyw un neu rai o'r newidiadau a wnaed i'r Gofrestr wedi arwain at gyhoeddi gwybodaeth anghywir. I ategu'r broses hon, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr wirio a chadarnhau ei gofnod ar y Gofrestr yn flynyddol.
- Gall Medr ofyn am wybodaeth gan ddarparwr os yw'n dymuno gwirio cywirdeb gwybodaeth a ddangosir ar y Gofrestr, neu i ymchwilio i unrhyw bryderon a all fod wedi cael eu dwyn i'w sylw y gall gwybodaeth fod yn anghywir neu wedi dyddio.
- Lle adnabyddir gwybodaeth anghywir, gallwn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr ddarparu eglurhad neu ymrwymiad i gywiro'r wybodaeth o fewn graddfa amser a nodir mewn gohebiaeth.
- Lle'r ydym yn dod o hyd i dystiolaeth bod gwybodaeth yn anghywir trwy gamreolaeth neu esgeulustod ar ran darparwr neu fwriad pendant ganddo i achosi oedi cyn bod gwybodaeth gywir yn ymddangos neu i guddio gwybodaeth gywir fel nad yw'n ymddangos, gallwn gymryd camau gweithredu priodol fel a nodir yn ein Datganiad Ymyrryd. Gall Medr ystyried a yw ymddygiad o'r math hwn yn creu mwy o risg o dorri amodau cofrestru eraill megis y rhai ar gyfer Llywodraethu a Rheoli.

Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod **Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth** yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau mewn polisi, ac adborth gan randdeiliaid. Ceir disgwyliad y bydd sefydliadau rheoleiddiedig yn goleuo rhan allweddol o'r ddolen adborth honno. Bydd sefydliadau'n cael eu hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau gyda digon o rybudd i'w galluogi i gynllunio a chydymffurfio.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Amod: Statws Elusennol

Rhaid i'r holl sefydliadau sydd wedi'u cofrestru gyda Medr yn y categori **Craidd Addysg Uwch**:

- a) bod yn elusen. Rhaid cadarnhau hyn yn y cais ynghyd â rhif cofrestr elusen y sefydliad (lle y bo'n berthnasol) ac enw a chyfeiriad ei reoleiddiwr elusennau.
- b) Os nad yw'r sefydliad wedi'i gofrestru gyda rheoleiddiwr elusennau, rhaid iddo ddarparu rhesymau dros hyn, ynghyd â chopi o'i ddogfen lywodraethu.
- c) Lle mae cyrsiau cymhwysol yn cael eu darparu ar ran y sefydliad, yna rhaid i'r sefydliad gadarnhau bod pob darparwr sy'n cyflwyno cyrsiau cymhwysol ar ei ran yn elusen.
- d) sicrhau eu bod yn gwbl dryloyw ynglŷn â'u statws elusennol, gan gynnwys cydymffurfedd y sefydliad â chyfraith elusennau a sut y mae ei statws elusennol yn effeithio ar ei weithrediadau. Mae hyn yn cynnwys cyfleu statws elusennol y sefydliad yn eglur i'r cyhoedd.

Gwybodaeth Berthnasol Arall

Mae'r amod hwn yn gymwys yn benodol i sefydliadau sydd wedi'u cofrestru gyda Medr yn y categori Craidd Addysg Uwch.

Amod Cychwynnol neu Barhaus

Mae hwn yn **amod** cofrestru **cychwynnol** a **pharhaus**.

Sail Gyfreithiol

Mae'r gofyniad i ddarparwyr yn y categori craidd fod yn elusen wedi'i nodi o dan **Reoliad 8(a) (amod cychwynnol) a 10(a) (amod parhaus) o Reoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024**.

Pam fod yr amod hwn yn bwysig a sut y mae'n cysylltu â dull rheoleiddio Medr?

Mae sicrhau bod gwybodaeth am statws elusennol yn eglur ac yn gywir yn cyd-fynd ag ymrwymiad Medr i dryloywder, atebolrwydd, a diogelu myfyrwyr. Rhaid i sefydliadau sydd â statws elusennol ddatgelu'r wybodaeth hon i feithrin ymddiriedaeth a sicrhau bod myfyrwyr, staff a'r cyhoedd yn deall y fframwaith cyfreithiol a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ef.

Tryloywder: Trwy gyfleu eu statws elusennol yn eglur, mae sefydliadau'n galluogi myfyrwyr a rhanddeiliaid i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ddealltwriaeth am sefyllfa a rhwymedigaethau cyfreithiol y sefydliad.

Atebolrwydd: Mae'r amod hwn yn sicrhau bod sefydliadau'n atebol am reoli eu statws elusennol mewn modd sy'n cydymffurfio â chyfraith elusennau, gan gynnwys llywodraethu adnoddau elusennol.

Diogelu Hawliau Myfyrwyr: Mae darparu gwybodaeth dryloyw am statws elusennol yn helpu i ddiogelu myfyrwyr rhag unrhyw gamddealltwriaeth ynghylch strwythur ariannol neu gyfreithiol y sefydliad.

Gofynion Cydymffurfio

I gydymffurfio â'r amod hwn, rhaid i'r sefydliad wneud y canlynol:

1. **Darparu Gwybodaeth Eglur:** Sicrhau bod yr holl wybodaeth am statws elusennol y sefydliad yn eglur, yn gywir, ac nad yw'n gamarweiniol. Mae hyn yn cynnwys manylion cydymffurfio â chyfraith elusennau a sut y mae'r statws hwn yn effeithio ar weithrediadau sefydliadol.
2. **Sicrhau Hygyrchedd Gwybodaeth:** sicrhau bod yr holl wybodaeth elusennol yn hygyrch iawn ar wefan y sefydliad, mewn dogfennau cyhoeddus, ac mewn cyfathrebiadau gyda darpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol.
3. **Cynnal Prosesau Adrodd Cywir:** Rhaid i sefydliadau ddarparu adroddiadau cywir am eu statws elusennol a'u cydymffurfedd â rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau i Medr.
4. **Ymlynu wrth Ddeddfwriaeth Berthnasol:** Sicrhau y cydymffurfir â'r holl fframweithiau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys Deddf Elusennau 2011, ac unrhyw ganllawiau pellach gan Medr sy'n ymwneud â datgelu statws elusennol.
5. **Gwneud penderfyniadau:** Mae gan gorff llywodraethu'r sefydliad gyfrifoldeb i ddiogelu budd myfyrwyr ar y cyd a budd y cyhoedd a rhaid iddo sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu hystyried o fewn ei brosesau penderfynu allweddol, hyd y bo hynny'n gyson â'u rhwymedigaethau dan gyfraith elusennau.
6. **Hysbysu:** Lle mae methiant yn y sefydliad wedi sbarduno hysbysiad i'r prif reoleiddiwr ac mai rhywun heblaw Medr yw'r rheoleiddiwr hwnnw, rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu Medr ar unwaith hefyd am y methiant i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith.

Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn trwy'r mecanweithiau canlynol:

- **Asesiad Cychwynnol:** Rhaid bod gan sefydliadau sy'n ceisio cofrestru gyda Medr ddatganiad o'u statws elusennol, gan gynnwys rhif cofrestru elusen y sefydliad (lle y bo'n berthnasol), enw a chyfeiriad ei reoleiddiwr elusennau a sut y maent yn cyfleu eu statws elusennol i'r cyhoedd.
- **Datganiad Cydymffurfio Blynnyddol:** Rhaid i sefydliadau gyflwyno datganiad blynnyddol sy'n cadarnhau cydymffurfedd â'r amod hwn.
- **Archwiliadau ac Adolygiadau:** Gall Medr gynnal archwiliadau bob hyn a hyn i wirio bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r amod hwn, gan adolygu dogfennau cyhoeddus a chyfathrebiadau sy'n datgelu statws elusennol y sefydliad.
- **Monitro Seiliedig-ar-Risg:** Gall sefydliadau a adnabuwyd fel rhai sy'n wynebu risg uwch o ddiffyg cydymffurfio, oherwydd materion blaenorol neu newidiadau yn eu statws cyfreithiol, orfod cael eu monitro a chael adolygiadau'n fwy mynych.
- **Mecanweithiau Adborth:** Bydd Medr yn ystyried adborth gan fyfyrwyr, staff, rhanddeiliaid, a phartïon eraill ynghylch eglurder a chywirdeb datgeliadau'r sefydliad am statws elusennol.

Bydd methu â chydymffurfio â gofynion monitro'n ysgogi ymchwiliad pellach ac ymyriadau posibl hefyd.

Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal i gyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau mewn polisi, ac adborth gan randdeiliaid. Bydd sefydliadau'n cael eu hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau gyda digon o rybudd i'w galluogi i gynllunio a chydymffurfio.



Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Canllawiau Atodol ynghylch y Gofynion – Digwyddiadau Adroddadwy

Crynodeb

Yn gymwys i'r: holl ddarparwyr a gyllidir a darparwyr cofrestredig a phob amod cofrestru a chyllido.

Digwyddiadau Adroddadwy

1. Mae digwyddiadau adroddadwy'n cynnwys digwyddiadau difrifol a hysbysu am ddigwyddiadau.

Asesiad

2. Bydd digwyddiadau adroddadwy'n cael eu defnyddio i oleuo asesiad Medr o gydymffurfedd yn erbyn amodau cofrestru a chyllid parhaus.

Adnabod materion y dylid adrodd amdanynt

3. Cyfrifoldeb darparwr yw penderfynu a yw digwyddiad neu fater penodol yn gyfystyr â digwyddiad adroddadwy ac a ddylid adrodd amdano.
4. Os ydym yn dod i'r casgliad nad yw darparwr wedi adrodd am ddigwyddiad, neu fod darparwr, wrth adrodd am ddigwyddiad, heb gydymffurfio â'r graddfeydd amser ar gyfer adrodd, gallwn gymryd camau rheoleiddiol pellach.
5. Rydym yn ystyried bod rhaid i'r holl ddarparwyr adrodd bob amser am faterion a nodir yn Nhabl 1 yn Anecs A, am bod y rhain yn faterion y byddai darparwr rhesymol, yn ein barn ni, wastad yn ystyried eu bod yn adroddadwy.
6. Gall fod achosion o fethiant difrifol sy'n peri risg i gydymffurfedd ag unrhyw amod rheoleiddiol neu'n peri risg i ddysgwyr sydd y tu allan i'r rhestr a gynhwysir yn Nhablau 1 a 2 yn Anecs A. Yn yr achosion hyn, dylai darparwyr ddefnyddio eu crebwyll a gallant geisio cyngor neu eglurhad gan Medr. Byddwn yn adolygu Tablau 1

a 2 yn Anecs A yn rheolaidd.

Rhoi gwybod i Medr am ddigwyddiad adroddadwy

7. Mae darparwyr yn gyfrifol am sicrhau bod Medr yn cael gwybod am ddigwyddiadau adroddadwy. Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ar y trefniadau ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau. Mae hyn yn bwysig gan y gallai'r wybodaeth a gynhwysir mewn digwyddiad adroddadwy newid asesiad risg Medr ar gyfer darparwr ac y gallai arwain at gam rheoleiddiol.
8. Os yw digwyddiad adroddadwy'n ymwneud â swyddog atebol, nid yw'n debygol o fod yn briodol i'r swyddog atebol gyflwyno'r adroddiad i Medr. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r corff llywodraethu ei hun gyflwyno'r adroddiad neu ddirprwyo'r cam gweithredu i adrodd am y mater i unigolyn priodol arall nad yw'n gweithredu fel y swyddog atebol. Lle mae'r swyddog atebol yn destun adroddiad, rhaid i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r adroddiad ddatgan yn glir na fyddai'n briodol i Medr ymateb i'r swyddog atebol.

Digwyddiad difrifol

9. Mae'n ofynnol i ddarparwyr adrodd am ddigwyddiad difrifol o fewn pum niwrnod gwaith i ddyddiad y digwyddiad neu'r dyddiad y caiff ei adnabod. Lle mae darparwr yn adrodd y tu allan i'r ffrâm amser o 'bum niwrnod gwaith'¹⁰, dylai nodi'r rhesymau dros hyn fel rhan o'r adroddiad y mae'n ei gyflwyno am ddigwyddiad adroddadwy.

Digwyddiad hysbysadwy

10. Mae'n ofynnol i ddarparwyr adrodd am unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy yn fisol.

Digwyddiadau sy'n ymwneud â mwy nag un darparwr

11. Mae Medr y cydnabod y ceir digwyddiadau neu faterion weithiau y mae'n rhaid i fwy nag un darparwr adrodd amdanynt. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai pob darparwr ffurfio ei farn ei hun pa un a ddylid adrodd am ddigwyddiad.

Cyflwyno o digwyddiad adroddadwy

Digwyddiad difrifol

12. Rhaid cyflwyno digwyddiad difrifol yn ysgrifenedig trwy'r e-bost i sicrwydd@medr.cymru.
13. Pan fo darparwr yn cyflwyno digwyddiad difrifol, rhaid i'r adroddiad a gyflwynir gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
 - a) disgrifiad o'r digwyddiad yr adroddir amdano;
 - b) pa un a yw'r digwyddiad wedi bod neu heb fod eto;
 - c) dyddiad y digwyddiad (os yw'r digwyddiad wedi bod);

¹⁰ At y dibenion hyn, mae 'diwrnod gwaith' yn golygu unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, nac yn ddiwrnod sy'n ŵyl y banc yng Nghymru dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971.

- d) pwy fu'n rhan ohono;
 - e) yr ymholiadau a wnaed a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y darparwr, gan gynnwys unrhyw adroddiadau i reoleiddwyr eraill neu'r heddlu;
 - f) y rheolaethau a oedd yn eu lle a oedd yn berthnasol i'r digwyddiad, pa un a gawsant eu dilyn ac, os na, pam na chawsant eu dilyn;
 - g) pa un a yw'r corff llywodraethu wedi penderfynu bod angen cyflwyno neu ddiwygio rheolaethau – ac, os felly, sut ac erbyn pryd;
 - h) yr asesiad o ddigonolrwydd y rheolaethau perthnasol gan archwilwyr mewnol y darparwr ac unrhyw effaith ar eu barn ynglŷn â phrosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu;
 - i) effaith y digwyddiad ar y darparwr;
 - j) effaith y digwyddiad ar unrhyw randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr a staff;
 - k) cadarnhad yr adroddwyd am y digwyddiad wrth y corff llywodraethu yn ei gyfanrwydd; cadeirydd pwyllgor archwilio'r darparwr (neu bwyllgor cyfatebol); pennaeth archwilio mewnol y darparwr (neu swyddog cyfatebol); ac archwilydd allanol y darparwr.
14. Os oes ymchwiliad mewnol i'r digwyddiad adroddadwy, rhaid i'r darparwr ddarparu copi o adroddiad yr ymchwiliad pan fydd hwn ar gael.
15. Ar ôl i ddarparwr gyflwyno digwyddiad difrifol, bydd Medr yn adolygu'r wybodaeth ac yn asesu pa mor gredadwy, dibynadwy a chyflawn ydyw. Efallai y byddwn yn gofyn i'r darparwr am ragor o wybodaeth, os yw hyn yn ofynnol. Efallai y byddwn hefyd yn cyflwyno ymholiadau i gyrff eraill, neu'n gofyn am ragor o wybodaeth ganddynt.

Digwyddiad hysbysadwy

16. Rhaid cyflwyno digwyddiad hysbysadwy yn ysgrifenedig trwy'r e-bost i sicrwydd@medr.cymru.
17. Ar ôl i ddarparwr gyflwyno digwyddiad hysbysadwy, bydd Medr yn adolygu'r wybodaeth ac yn asesu pa mor ddibynadwy a chyflawn ydyw. Efallai y byddwn yn gofyn i'r darparwr am ragor o wybodaeth, os yw hyn yn ofynnol. Efallai y byddwn hefyd yn cyflwyno ymholiadau i gyrff eraill, neu'n gofyn am ragor o wybodaeth ganddynt.

Atodiad A: Digwyddiadau adroddadwy

1. Mae'r rhestr o ddigwyddiadau difrifol yn Nhabl 1 wedi'i grwpio'n themâu. Mae hyn at ddibenion eglurhaol yn unig ac mae'n debygol o fod yn wir bod digwyddiad neu fater penodol yn berthnasol i nifer o themâu.
2. Mae'r rhestr o hysbysu am ddigwyddiadau yn Nhabl 1 wedi'i grwpio'n themâu. Mae hyn at ddibenion eglurhaol yn unig ac mae'n debygol o fod yn wir bod digwyddiad neu fater penodol yn berthnasol i nifer o themâu.

Tabl 1: Rhestr o Ddigwyddiadau Difrifol

Math o ddigwyddiad neu fater
a. Materion sy'n ymwneud â pherchnogaeth, ffurf gyfreithiol neu strwythur corfforaethol darparwr, gan gynnwys ymhlith eraill:
Yr endid cyfreithiol sydd wedi'i gofrestru'n peidio â bodoli
b. Materion sy'n gysylltiedig â darparu addysg drydyddol yng Nghymru, gan gynnwys ymhlith eraill:
Colli, gan gynnwys atal, trwydded noddi myfyrwyr y darparwr
c. Materion sy'n gysylltiedig ag ansawdd a safonau cyrsiau trydyddol darparwr, gan gynnwys ymhlith eraill:
Hysbysiad i'r darparwr am ymchwiliad gan sefydliad dyfarnu neu gorff dyfarnu neu gan gorff proffesiynol, rheoleiddio neu statudol
Hysbysiad i'r darparwr bod ei sefydliad dyfarnu'n mynd i dynnu'n ôl o'r trefniant, lle nad yw hyn yn ganlyniad arferol i adolygiad wedi'i gynllunio o gontract
Lle mae darparwr yn meddwl bod rheswm dros gredu bod ansawdd y ddarpariaeth y mae'n ei rhoi neu y mae partner yn ei rhoi'n annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr fel y'u nodwyd trwy eu prosesau eu hunain, gan gynnwys trwy gwynion
Digwyddiadau arwyddocaol sy'n gysylltiedig ag ansawdd
d. Materion sy'n gysylltiedig â diogelu myfyrwyr a defnyddwyr, gan gynnwys ymhlith eraill:
Mae'r darparwr yn dod yn ymwybodol ei fod wedi codi neu hysbysebu ffioedd sydd uwchlaw terfyn ffioedd statudol neu derfyn ffioedd a osodwyd o ganlyniad i fod wedi'i gofrestru yng nghategori craidd y gofrestr
e. Materion sy'n gysylltiedig â hyfywedd neu gynaliadwyedd ariannol darparwr, gan gynnwys ymhlith eraill:
Mae'r darparwr yn adnabod risg i'w hyfywedd byrdymor (un i ddwy flynedd)
Mae'r darparwr yn adnabod risg i'w gynaliadwyedd dros y tymor canolig (o leiaf dair i bum mlynedd)
f. Materion sy'n ymwneud â rheoli a llywodraethu, gan gynnwys rheoli ariannol, gan gynnwys ymhlith eraill:
Cychwyn adolygiad o lywodraethu lle nad yw hyn yn rhan arferol o'r trefniadau wedi'u cynllunio ar gyfer darparwr
Diffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol

Gwendidau mewn rheolaeth a adnabuwyd gan y gwasanaeth archwilio mewnol sy'n ymwneud â gallu'r darparwr i gydymffurfio ag amodau cofrestru a chyllid parhaus
Y digwyddiadau neu'r materion canlynol sy'n gysylltiedig â thwyll neu afreolaidd-dra ariannol: - Mae twyll neu afreolaidd-dra ariannol yn digwydd yn y darparwr lle mae'r symiau o arian uwchlaw, neu lle gallent fod uwchlaw, £50,000 neu 2% o drosiant y darparwr, pa un bynnag yw'r isaf - Mae'r darparwr yn cael cwyn neu honiad y gallai fod wedi cyflawni twyll; - Mae'r darparwr yn cychwyn ymchwiliad i dwyll neu afreolaidd-dra ariannol posibl sy'n ymwneud â'r darparwr; - Mae twyll yn digwydd yn y darparwr sy'n amlygu gwendid systemig yn nhrefniadau rheolaeth fewnol y darparwr sy'n awgrymu y gallai achosion eraill, sydd heb eu hadnabod eto, fod yn digwydd a'r camau gweithredu a gymerir gan y darparwr i fynd i'r afael â'r gwendid hwn; - Mae'r twyll yn un o batrwm ailadroddol o achosion o dwyll ar raddfa fechan hyd yn oed a'r camau gweithredu a gymerir gan y darparwr i fynd i'r afael â'r gwendid hwn; a/neu - Mae'n debygol bod twyll yn y darparwr yn fater sydd er budd y cyhoedd oherwydd natur y twyll neu'r afreolaidd-dra, neu'r bobl gysylltiedig
Achosion lle nad yw gwrthdaro buddiannau wedi cael ei reoli a lle mae hyn wedi arwain at fethiant mewn rheolaethau mewnol
Achosion lle nad yw adroddiadau chwythu'r chwiban wedi cael eu rheoli a lle mae hyn wedi arwain at fethiant mewn rheolaethau mewnol
Achos cyfreithiol neu achos llys yn erbyn y darparwr sy'n cynnwys: - Ymwneud gan unrhyw aelod o'r corff llywodraethu; - Ymwneud gan aelod o'r uwch dîm gweithredol; a/neu - Mae achos unigol, neu batrwm o achosion, yn amlygu gwendid systemig yn nhrefniadau rheoli a llywodraethu'r darparwr
Adroddiadau a gyflwynwyd i reoleiddiwr arall
Ymchwiliad a/neu sancsiwn rheoleiddiol gan reoleiddwyr neu gyrff cyllido eraill
Unrhyw achos o dorri neu beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth y DU
Unrhyw achos o dorri neu beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth ryngwladol, lle mae darparwr yn gweithredu mewn gwlad arall y tu allan i'r DU
Ymosodiad seiber sy'n arwain at golli data sylweddol; amharu ar wasanaethau a/neu effaith ar ddysgwyr

Diogelu, gan gynnwys:

- 1.4 Marwolaeth mewn eiddo a berchnogir neu a lesir gan y darparwr;
- 1.5 Marwolaeth rhywun tra'r oedd dan oruchwyliaeth darparwr;
- 1.6 Marwolaeth o ganlyniad i weithredoedd darparwr;
- 1.7 Niwed difrifol mewn eiddo a berchnogir neu a lesir gan y darparwr;
- 1.8 Niwed sylweddol i rywun tra'r oedd dan oruchwyliaeth darparwr;
- 1.9 Niwed sylweddol o ganlyniad i weithredoedd darparwr; a/neu
- 1.10 Canfyddiadau crwner lle mae'r rhain yn ymwneud â marwolaeth dysgwr ac yn amlygu gwendid systemig yn nhrefniadau rheoli a llywodraethu'r darparwr.

Tabl 2: Rhestr o Digwyddiad Hysbysadwy

Math o ddigwyddiad neu fater
a. Materion sy'n ymwneud â pherchnogaeth, ffurf gyfreithiol neu strwythur corfforaethol darparwr, gan gynnwys ymhlith eraill:
Y darparwr yn uno â darparwr arall
Newid ym mherchnogaeth y darparwr, gan gynnwys trwy ei werthu
Newid yn ffurf gyfreithiol y darparwr
Newidiadau sylweddol i ddogfennau llywodraethu'r darparwr
Gweithred gan y darparwr i gaffael endid arall
Gwerthu rhan o'r darparwr neu ei riant
b. Materion sy'n gysylltiedig â darparu addysg drydyddol yng Nghymru, gan gynnwys ymhlith eraill:
Y darparwr yn penderfynu rhoi'r gorau'n llawn neu'n sylweddol i ddarparu addysg drydyddol neu fath penodol o addysg drydyddol, pa un a yw hyn yn arwain at gau'r darparwr ai peidio
Mae'r darparwr yn ymrwmo i gytundeb partneriaeth newydd sy'n ymwneud â darpariaeth academaidd
Newidiadau sy'n achosi i'r darparwr beidio â bod wedi'i leoli yn llwyr nac yn bennaf yng Nghymru
c. Materion sy'n gysylltiedig â diogelu myfyrwyr a defnyddwyr, gan gynnwys ymhlith eraill:
Cymeradwyaeth y corff llywodraethu i gampws newydd, boed yn y DU neu'n rhyngwladol
d. Materion sy'n gysylltiedig â hyfywedd neu gynaliadwyedd ariannol darparwr, gan gynnwys ymhlith eraill:
Mae'r darparwr yn adnabod risg o dorri cyfamod
Mae'r darparwr yn adnabod y bydd yn mynd y tu hwnt i'w luosrif benthyca cymeradwy (lle dyroddwyd hwn gan Medr)
Mae'r darparwr yn ystyried cynnig gwarant dros asedau'r darparwr i ategu ymrwymiad ariannol ¹¹
Mae'r darparwr yn adnabod amgylchiadau sy'n dynodi dirywiad sylweddol mewn perfformiad disgwyliedig a / neu bwysau disgwyliedig ar lefelau arian parod gweithiol

¹¹ Rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys cadarnhau ystyriaeth i briodoldeb y warant sy'n cael ei hystyried a pha un a oes angen ateb y gofynion sy'n ymwneud ag asedau trysorlys. Gweler y canllawiau ategol ar [asedau trysorlys](#).

Mae'r darparwr yn ystyried ad-dalu balansau benthyciadau sylweddol yn gynnar ¹²
Mae'r darparwr yn bwriadu ymgymryd ag ymrwymiad ariannol newydd ac mae wedi cael ei adnabod gan Medr fel un sydd mewn trefn 'monitro manylach'
Mae'r darparwr yn adnabod risg o oedi cyn cyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig i Medr
e. Materion sy'n ymwneud â rheoli a llywodraethu, gan gynnwys rheoli ariannol, gan gynnwys ymhlith eraill:
Ymddiswyddiad Cadeirydd y corff llywodraethu neu Gadeirydd ei bwyllgorau
Penodi Cadeirydd y corff llywodraethu neu Gadeirydd ei bwyllgorau
Mae Clerc y corff llywodraethu, neu un o'i bwyllgorau, yn gadael ei swydd oherwydd anghytundeb, diswyddiad neu ymddiswyddiad dan orfod a'r rhesymau dros yr ymadawiad
Penodi Clerc y corff llywodraethu
Diswyddiad neu ymddiswyddiad yr archwilwyr mewnol a'r rhesymau dros hyn
Diswyddiad neu ymddiswyddiad yr archwilwyr allanol a'r rhesymau dros hyn
Newid o ran darparu gwasanaethau archwilio mewnol
Newid o ran darparu gwasanaethau archwilio allanol
Ymddiswyddiad neu ddiswyddiad aelod o'r uwch dîm gweithredol oherwydd anghytundeb, diswyddo neu ymddiswyddiad dan orfod
Penodi aelod o'r uwch dîm gweithredol
Unrhyw gytundebau diswyddo ar gyfer aelodau o'r uwch dîm gweithredol neu â gwerth o fwy na £75,000 ynghyd â chadarnhad bod y cytundeb diswyddo wedi cael ei gymeradwyo trwy strwythur llywodraethu'r darparwr
Oedi cyn cyflwyno ffurflenni ariannol a/neu ddata
Prosiectau ailstrwythuro sylweddol sy'n golygu newidiadau i staffio a/neu seilwaith ffisegol. Gan gynnwys gwybodaeth am y rhesymeg dros unrhyw newidiadau arfaethedig; cynlluniau ymgysylltu a chyfathrebu gyda dysgwyr, staff, undebau llafur a'r cyfryngau ac ar gyfer darparu diweddariadau rheolaidd wrth i'r sefyllfa ddatblygu
Y darparwr yn arallgyfeirio i mewn i feysydd gweithgarwch newydd
Newid sylweddol i natur neu'r modd y darperir darpariaeth y darparwr
Mater sy'n ymwneud â chydymffurfedd y darparwr â'r ddyletswydd Prevent

¹² Hysbysiad i gynnwys rhesymeg ac ystyriaeth i uchdwr arian parod a ragwelir

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government